



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings**

**Dydd Mawrth, 20 Medi 2011
Tuesday, 20 September 2011**

Cynnwys
Contents

3	Datganiad am Bwll y Gleision Statement on the Gleision Mine
16	Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister
55	Datganiad am Gyngor Sir Penfro Statement on Pembrokeshire County Council
73	Gwasanaethau Mamolaeth Maternity Services
105	Cyfnod Pleidleisio Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y Siambr.
Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

Teyrnged i Lowyr y Gleision Tribute to Gleision Miners

Y Llywydd: Prynhawn da.

It is my sad duty today to ask you to stand to observe a minute's silence in memory of the miners who tragically lost their lives at the Gleision mine last week.

*Safodd Aelodau'r Cynulliad am funud o dawelwch.
Assembly Members stood for a minute's silence.*

The Presiding Officer: Good afternoon.

Fy nyletswydd trist heddiw yw gofyn ichi sefyll i nodi munud o dawelwch er cof am y glowyr a gollodd eu bywydau yn drasig ym mhwl y Gleision yr wythnos diwethaf.

Datganiad am Bwll y Gleision Statement on the Gleision Mine

The First Minister (Carwyn Jones): Members will be familiar with the key facts surrounding the tragedy at Gleision Colliery near Pontardawe at the end of last week. We now know that four miners from a party of seven were trapped by water in a ventilation shaft. Three miners escaped. We also know that efforts to rescue the remaining four trapped men were unsuccessful. The four miners were Charles Breslin, David Powell, Garry Jenkins and Phillip Hill; all were local to the Swansea and Neath Valleys. I know that all Members will join me in offering sincere condolences to the bereaved families. Our thoughts are with them and the wider community that shares in their loss.

Yr oedd amser yn ein hanes pan oedd damweiniau yn y gweithiau glo yn rhy gyffredin. Yr oeddem yn gobeithio, wrth gwrs, bod yr achlysuron hynny yn y gorffennol, ond mae'r digwyddiad yn y Gleision yn ein hatgoffa o'r peryglon sy'n gysylltiedig â'r diwydiant glo.

South Wales Police are leading the investigation in accordance with the work-related deaths protocol agreed between the police, the Health and Safety Executive, local authorities and the Crown Prosecution Service. The Health and Safety Executive is providing technical support. At a later stage, it may be appropriate for the HSE to take the lead in the investigation, as has happened in

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Bydd Aelodau yn gyfarwydd â'r ffeithiau allweddol ynglŷn â'r drychineb yng Nglofa'r Gleision ger Pontardawe ddiwedd yr wythnos diwethaf. Rydym bellach yn gwybod bod dŵr wedi trapio pedwar glöwr o grŵp o saith mewn siafft awyru. Dihangodd tri glöwr. Gwyddom hefyd y bu ymdrechion i achub y pedwar dyn yn aflwyddiannus. Y pedwar glöwr oedd Charles Breslin, David Powell, Garry Jenkins a Phillip Hill; roedd pob un yn lleol i Gwm Tawe a Chwm Nedd. Gwn y bydd yr Aelodau i gyd yn ymuno â mi i gynnig ein cydymdeimlad dwys i'r teuluoedd yn eu profedigaeth. Mae'r teuluoedd hynny, ynghyd â'r gymuned ehangach sy'n rhannu yn eu colled, yn ein meddyliau.

There was a time in our history when mining tragedies were sadly common. We had hoped, of course, that these events were in the past. The incident at Gleision is a tragic reminder of the dangers associated with the mining industry.

Mae Heddlu De Cymru yn arwain yr ymchwiliad yn unol â'r protocol marwolaethau yn y gwaith y cytunwyd arno gan yr heddlu, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, awdurdodau lleol a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn darparu cymorth technegol. Yn nes ymlaen, efallai y bydd yn briodol i'r AGID gymryd yr awenau

other incidents. I expect a full report into the causes of the tragedy to be published in due course, so that any lessons learnt can be applied elsewhere. I would like to pay tribute to the emergency services and rescue teams that worked unstintingly, and at personal risk, to search for the miners. These include the police and fire and ambulance services, along with the mines and caves rescue services. Mining communities are traditionally close-knit and supportive to those in need, and we saw this through the immediate response of the community in setting up a base at Rhos Community Centre to support the families and loved ones of the miners. No-one can fail to have been impressed by the kindness shown by neighbours at a time of need. Llywydd, I have referred to the shared history of coal mining, which still forms a powerful bond among communities in many parts of our country. The tragedy at Gleision is a tragedy for Wales.

The Presiding Officer: As the First Minister said, there has been a great outpouring of grief from around the world, and you will all have received a letter from the Secretary of State for Wales.

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): I thank the First Minister for his statement this afternoon, and the Presiding Officer for allowing time for this statement to be made. It is entirely appropriate, during our first meeting here, that we, as the collective of the elected representatives of Wales, come together to show our support and strength as a country in dealing with such issues. In a world that is numbed by news about deaths from across the world, it is often taken for granted that they are happening somewhere else. However, Friday's events graphically emphasised the tragic consequences of mining accidents. I know the area well, as my wife's aunt has farmed the land that neighbours the mine for around 60 years. It was striking to see the location of the mine, because it had never occurred to me that there was a mine in that area.

I pay tribute, along with the First Minister, to the excellent work done by the emergency

yn yr ymchwiliad, fel sydd wedi digwydd mewn achosion eraill. Yr wyf yn disgwyl i adroddiad llawn ar achosion y ddamwain gael ei gyhoeddi maes o law, er mwyn i unrhyw wersi gael eu dysgu a'u cymhwyso mewn manau eraill. Hoffwn dalu teyrnged i'r gwasanaethau brys a'r timau achub a weithiodd yn ddiflino, mewn manau peryglus, i chwilio am y glowyr. Mae'r rhain yn cynnwys yr heddlu, y gwasanaethau tân ac ambiwlans, a'r gwasanaethau achub o fwyngloddiau ac ogofâu. Yn draddodiadol, mae cymunedau glofaol yn glòs ac yn gefnogol i'r rhai mewn angen, a gwelsom hyn yn y ffordd yr ymatebodd y gymuned yn syth drwy ddarparu cefnogaeth yng Nghanolfan Gymunedol Rhos i deuluoedd ac anwyliaid y glowyr. Ni all unrhyw un fethu â chydabod y caredigrwydd a ddangoswyd gan gymdogion mewn cyfnod o angen. Lywydd, yr wyf wedi cyfeirio at ein hanes o gloddio am lo, sydd yn dal i ffurfio bond cryf ymysg cymunedau ein gwlad. Mae'r drychineb yn Gleision yn drychineb i Gymru.

Y Llywydd: Fel y dywedodd y Prif Weinidog, bu galaru eang ar draws y byd, a byddwch i gyd wedi derbyn llythyr oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru.

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad y prynhawn yma, a'r Llywydd am ganiatáu amser ar gyfer y datganiad hwn. Mae'n gwbl briodol, yn ystod ein cyfarfod cyntaf yma, ein bod ni, fel cynrychiolwyr etholedig Cymru, yn dod at ein gilydd i ddangos ein cefnogaeth a'n cryfder fel gwlad wrth ddelio â materion o'r fath. Wrth glywed newyddion trist am farwolaethau o bob rhan o'r byd, mae pobl yn aml yn cymryd yn ganiataol eu bod yn digwydd yn rhywle arall. Fodd bynnag, mae digwyddiadau dydd Gwener wedi pwysleisio canlyniadau trasig damweiniau mwyngloddio. Yr wyf yn nabod yr ardal yn dda, gan fod modryb fy ngwraig wedi ffermio tir cyfagos i'r pwll am tua 60 mlynedd. Roedd yn drawiadol i weld lleoliad y pwll, gan nad oeddwn erioed wedi meddwl bod pwll yn yr ardal honno.

Rhof deyrnged, fel y gwnaeth y Prif Weinidog, i waith rhagorol y gwasanaethau

services on behalf of all concerned, in trying to bring a favourable outcome to the tragedy that happened last Thursday and Friday. As one of the regional Members who represents the area where the mines rescue service is based in the Rhondda, it was a source of enormous pride for me to see them working hand in glove with everyone else to try to bring a satisfactory conclusion to these sad events. I believe that the response that we saw from the community was a very Welsh one. One thing that Wales is exceptionally good at is rallying around and supporting people when they need support. I believe that only in Wales would you find that level of community support and help.

First Minister, I would like to pose two questions to you. First, in your mind, is there sufficient local support from the local health board and the local authorities to ensure that the families of the bereaved and the survivors receive the support that they require? That support could be in the field of education for the children, or family support, so that, with time, adjustments can be made—although I doubt whether many people will ever forget their loved ones who perished on Friday.

Secondly, you alluded to the issue of an investigation. I appreciate that you cannot go into any depth on that now, but when conclusions are brought forward on matters that relate to the responsibility of the Assembly—such as planning—will you bring a full statement to Plenary so that Members have an opportunity to analyse the issue and ask questions, where appropriate, to ensure that any improvements required are made? In closing, I leave the thoughts and prayers of the Welsh Conservatives with the families of the bereaved, and express our support for the survivors of this tragedy and the events that unfolded on Thursday and Friday.

Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): Diolchaf i'r Prif Weinidog yn gynnes iawn am ei ddatganiad heddiw. Mae'n hollol briodol bod datganiad yn cael ei wneud heddiw, o gofio'r drychineb fawr a ddigwyddodd ym mhwill glo'r Gleision yng Nghwm Tawe ddydd Iau diwethaf. Yr ydym i gyd, fel Aelodau, yn anfon ein cydymdeimlad dwysaf at y teuluoedd yn eu colled.

brys ar ran pawb yr effeithiwyd arnynt, wrth geisio dod â chanlyniad ffafriol i'r drychineb ddydd Iau a dydd Gwener diwethaf. Fel un o'r Aelodau rhanbarthol sy'n cynrychioli'r ardal lle mae'r gwasanaeth achub pyllau glo wedi ei leoli yn y Rhondda, roedd yn destun balchder enfawr i mi eu gweld yn gweithio law yn llaw â phawb arall i geisio dod â'r digwyddiadau trist hyn i ben yn gadarnhaol. Credaf fod yr ymateb a welsom gan y gymuned yn un Cymreig iawn. Un peth mae Cymru yn gallu ei wneud yn eithriadol o dda yw bod yn gefn i bobl pan fydd arnynt angen cymorth. Credaf mai dim ond yng Nghymru y byddech yn dod o hyd i'r lefel honno o gefnogaeth a chymorth gymunedol.

Brif Weinidog, hoffwn ofyn dau gwestiwn i chi. Yn gyntaf, yn eich barn chi, a oes digon o gefnogaeth leol gan y bwrdd iechyd lleol a'r awdurdodau lleol i sicrhau bod y teuluoedd sydd mewn profedigaeth a'r goroeswyr yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt? Gallai hynny fod ym maes addysg ar gyfer y plant, neu gymorth i deuluoedd, er mwyn gwneud addasiadau gydag amser—er fy mod yn amau na fydd llawer o bobl yn anghofio eu hanwyliaid a fu farw ddydd Gwener.

Yn ail, cyfeiriasoch at ymchwiliad. Sylweddolaf na allwch roi unrhyw fanylion am hynny yn awr, ond pan ddaw casgliadau ar faterion sy'n ymwneud â chyfrifoldeb y Cynulliad—fel cynllunio—a wneud chi wneud datganiad llawn mewn Cyfarfod Llawn er mwyn i Aelodau gael cyfle i ddadansoddi'r mater a gofyn cwestiynau, lle bo'n briodol, er mwyn sicrhau bod unrhyw welliannau angenrheidiol yn cael eu gwneud? Wrth gloi, mae meddyliau a gweddïau'r Ceidwadwyr Cymreig gyda'r teuluoedd sydd mewn profedigaeth, ac rydym yn cefnogi goroeswyr y drychineb a'r hyn a ddigwyddodd ddydd Iau a dydd Gwener.

The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): I very warmly thank the First Minister for his statement today. It is wholly appropriate that he made a statement today, given the scale of the tragedy that took place at the Gleision mine in the Swansea Valley last Thursday. We all, as Members, send our sincerest sympathies to the families in their loss.

Ein hymateb cyntaf, mae'n siŵr, oedd nad oeddem yn disgwyl gweld trychineb o'r fath, fel y dywedodd y Prif Weinidog, gyda glowyr yn colli eu bywydau o dan y ddaear. Cawsom ein hatgoffa mewn ffordd hynod o greulon pa mor beryglus yw gweithio o dan y ddaear o hyd, er yr holl waith a gyflawnwyd dros y blynyddoedd a'r degawdau diwethaf i wneud pethau mor ddiogel â phosibl. Ni allwn ddychmygu'r loes y mae'r teuluoedd yn ei themlo o golli eu hanwyliaid yn y ddamwain yn y Gleision. Yr ydym yn anfon ein cofion atynt. Fel yr ydym wedi clywed, yr oedd yr holl gymuned wedi tynnu at ei gilydd i gefnogi'r teuluoedd, ac mae hynny'n destament i'r ysbryd sy'n bodoli yn y gymuned leol. Yr wyf i, hefyd, yn adnabod yr ardal yn dda: cefais fy magu yn un o'r cymoedd cyfagos ac euthum i'r ysgol ym Mhontardawe. Daeth yr ysbryd yr wyf yn gwybod amdano yn y gymuned i'r amlwg yn yr oriau yn dilyn y ddamwain.

I would also like to pay tribute to those who risked their lives in the search and rescue operation. While hope existed that the men could be found alive, they did everything humanly possible to reach them, and Wales is very proud of the work that they did. As the First Minister said, the investigation into the accident must go on: the police investigation and that of the Health and Safety Executive will, we trust, give the families and the community answers to many of the questions that they will surely have. I am sure that the First Minister will agree that we must not attempt to reach conclusions hastily, but we should all remain determined to learn the lessons of this devastating and tragic accident. One expert has reminded us already that it is impossible to eliminate all risks in working underground or working within the mining industry in general. Indeed, I am sure that many of us in the Chamber may well have relatives who have lost their lives in mining accidents, whether in the coal industry or in the slate quarries of north Wales or anywhere where people have to go underground to find metals.

While mining can be, and has been, made safer, it cannot be made entirely safe. Will the First Minister agree, however, that it is

Our first response, I am sure, was that we did not expect to see such a tragedy unfold, as the First Minister said, with miners losing their lives underground. We were reminded in a very cruel way just how dangerous working underground continues to be, despite all the work that has been done over the past years and decades to make things as safe as is possible. We cannot imagine the pain felt by these families in losing their loved ones in such an accident at the Gleision mine. We send our sincerest regards to them. As we have heard, the whole community pulled together to support the families, and that is testament to the spirit that exists in the local community. I, too, know the area well: I was brought up in a nearby valley and I attended school at Pontardawe. The spirit that I remember in that community became apparent in the hours following the accident.

Hoffwn hefyd dalu teyrnged i'r rhai a beryglodd eu bywydau yn y gwaith chwilio ac achub. Tra bod gobaith y gellid dod o hyd i'r dynion yn fyw, roeddent yn gwneud popeth o fewn eu gallu i'w cyrraedd, ac mae Cymru'n falch iawn o'u gwaith. Fel y dywedodd y Prif Weinidog, mae'n rhaid i'r ymchwiliad i'r ddamwain barhau: bydd ymchwiliad yr heddlu, a'r ymchwiliad gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn rhoi atebion, gobeithio, i'r teuluoedd a'r gymuned i nifer o'r cwestiynau sydd ganddynt. Yr wyf yn sicr y bydd y Prif Weinidog yn cytuno bod yn rhaid inni beidio â cheisio dod i gasgliadau ar frys, ond dylem i gyd barhau i fod yn benderfynol o ddysgu gwersi o'r ddamwain ddinistriol a thrasig hon. Mae un arbenigwr wedi ein hatgoffa eisoes ei bod yn amhosibl dileu pob risg wrth weithio dan ddaear neu yn y diwydiant mwyngloddio yn gyffredinol. Yn wir, yr wyf yn sicr bod gan sawl un ohonom yn y Siambr hon berthnasau a gollodd eu bywydau mewn damweiniau mwyngloddio, naill ai yn y diwydiant glo neu yn chwareli llechi gogledd Cymru, neu unrhyw le lle mae'n rhaid i bobl fynd o dan y ddaear i gloddio am fetelau.

Er bod modd gwneud mwyngloddio yn fwy diogel—a bod hynny wedi digwydd—ni ellir ei wneud yn gwbl ddiogel. A fyddai'r Prif

the job of Government at all levels to ensure that the risks are minimised and eliminated as far as is humanly possible? As we have seen today, the Members of this Assembly stand together as we mourn the loss of four miners in the Swansea Valley. We send our condolences to their families. We cannot know their pain, but we can do our utmost to stand by their side. Does the First Minister agree that the best tribute that we can pay to their memory is to ensure that, when the investigation is complete, we stand determined to do our best to ensure that, for the next generation who venture into the bowels of the earth to extract coal, mining is an even safer industry?

The Presiding Officer: I call the First Minister; I should have called you after the leader of the opposition.

The First Minister: There will come a time for questions and for answers to be sought to those questions. It is natural, when we see a tragedy such as this, that people want to know how it happened. I do not believe that that time is upon us yet. I have listened carefully to the views of the families and they have asked to be left to grieve in peace. They must be allowed to do that, and I respect their wishes. There will come a time, of course, when there needs to be a full inquiry and, should there be any lessons from that inquiry that can be learned by organisations that are within the responsibility of the Welsh Government, then I will bring a statement before the Assembly in order for questions to be asked.

I join the leader of the opposition and of Plaid Cymru in once again expressing my condolences and the desire that mining should be as safe as possible—we emphasise the words ‘as possible’. These were experienced miners. It is right to say that there are risks with any job, but I do not think that anyone expected this tragedy to happen. There were many things that I thought that I would have to deal with in the course of my role as First Minister, but a mining accident was not one of them. I think that we all believed that mining accidents were a thing of the past and not something that we would

Weinidog yn cytuno, fodd bynnag, mai gwaith y Llywodraeth ar bob lefel yw sicrhau bod y risgiau yn cael eu lleihau a’u dileu lle bo hynny’n ddynol bosibl? Fel yr ydym wedi gweld heddiw, mae Aelodau’r Cynulliad hwn yn sefyll gyda’i gilydd wrth alaru am golli pedwar glöwr yng Nghwm Tawe. Anfonwn ein cydymdeimlad at eu teuluoedd. Nid ydym yn gwybod maint eu poen, ond gallwn wneud ein gorau glas i sefyll ochr yn ochr â hwy. A yw’r Prif Weinidog yn cytuno mai’r deyrnged orau y gallwn ei thalu er cof amdanynt, pan fydd yr ymchwiliad wedi’i gwblhau, yw gwneud ein gorau i sicrhau, ar gyfer y genhedlaeth nesaf sy’n mentro i grombil y ddaear i echdynnu glo, bod mwyngloddio yn ddiwydiant hyd yn oed yn fwy diogel?

Y Llywydd: Galwaf y Prif Weinidog; dylwn fod wedi eich galw ar ôl arweinydd yr wrthblaid.

Y Prif Weinidog: Daw amser ar gyfer cwestiynau ac atebion i’r cwestiynau hynny. Mae’n naturiol, wrth weld trychineb fel hon, bod pobl eisiau gwybod sut y digwyddodd. Nid wyf yn credu bod yr amser hwnnw wedi cyrraedd eto. Yr wyf wedi gwrando’n ofalus ar farn y teuluoedd ac maent wedi gofyn am amser i alaru mewn heddwch. Rhaid iddynt gael yr hawl i wneud hynny, ac yr wyf yn parchu eu dymuniadau. Daw amser, wrth gwrs, pan fydd angen ymchwiliad llawn ac, os bydd unrhyw wersi y gellir eu dysgu gan sefydliadau mae Llywodraeth Cymru yn gyfrifol amdanynt, byddaf yn dod â datganiad gerbron y Cynulliad er mwyn i gwestiynau gael eu gofyn.

Ymunaf ag arweinydd yr wrthblaid ac arweinydd Plaid Cymru unwaith eto i fynegi fy nghydymdeimlad ynghyd â fy awydd y dylai mwyngloddio fod mor ddiogel â phosibl—rydym yn pwysleisio’r geiriau ‘â phosibl’. Roedd y rhain yn lowyr profiadol. Mae’n wir dweud bod yna risgiau mewn unrhyw swydd, ond nid wyf yn credu bod unrhyw un yn disgwyl y drychineb hon. Roeddwn yn disgwyl gorfod delio â llawer o bethau yn fy rôl fel Prif Weinidog, ond nid oedd damwain fwyngloddio yn un ohonynt. Credaf ein bod i gyd yn credu bod damweiniau mwyngloddio yn perthyn i’r

all have to face, least of all those families that are now grieving.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): I thank the First Minister for his statement and for the support that he has given to the families during this very difficult time and the role that he has played in recent days in providing that support. On behalf of the Welsh Liberal Democrats, I join you, First Minister, in sending our sincere condolences to the families of the men who have so tragically lost their lives and our best wishes to the survivors of this horrific accident. I do not think that anyone here can begin to imagine the horror and pain suffered by these families in those agonising hours following the knock on the door to say that their loved ones were trapped. It is a horrific experience to lose anyone in unexpected circumstances and in an accident, but to have that dragged out over such an extended period in the full glare and spotlight of international media attention must only add to those families' difficulties.

1.45 p.m.

Like you, I would like to thank and pay tribute to all those who did their utmost in the most difficult of circumstances to bring a more positive end to this horrific incident: the mines rescue service, the police, the fire service and the paramedics, who worked, as you said, tirelessly and at great personal risk and under immense strain to try to bring those men home alive. They were determined, even when all hope was lost, to bring those men home to their families.

Everybody has been deeply touched by the common humanity of the people of Pontardawe and the surrounding area in their response to the families. We often hear that our society and our communities have in some way changed. This incident has demonstrated to us that that common humanity, and that feeling of belonging, has not changed in Welsh communities: it is as alive and well as it has ever been. In the most difficult of circumstances, we often see the

gorffennol ac nid yn rhywbeth y byddai'n rhaid i ni eu hwynebu—a neb yn fwy na'r teuluoedd sydd yn awr yn galaru.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Diolch i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad ac am y gefnogaeth y mae wedi'i rhoi i'r teuluoedd yn ystod y cyfnod anodd iawn hwn, a'r rôl y mae wedi'i chwarae dros y dyddiau diwethaf wrth ddarparu'r cymorth hwnnw. Ar ran Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, yr wyf yn ymuno â chi, Brif Weinidog, wrth anfon ein cydymdeimlad diffuant at deuluoedd y dynion sydd wedi colli eu bywydau mor drasig, ac mae ein dymuniadau gorau gyda goroeswyr y ddamwain erchyll hon. Nid wyf yn credu y gall unrhyw un yma ddechrau dychmygu'r arswyd a'r boen a ddiodeffodd y teuluoedd hyn yn ystod yr oriau ingol yn dilyn y gnoc ar y drws i ddweud bod eu hanwyliaid wedi'u dal. Mae'n brofiad erchyll i golli unrhyw un o dan amgylchiadau annisgwyl ac mewn damwain, ond mae'n rhaid bod profi hynny dros gyfnod estynedig, gyda'r holl sylw gan y cyfryngau rhyngwladol yn ychwanegu at anawsterau'r teuluoedd hynny.

Fel chi, hoffwn ddiolch a thalu teyrnged i bawb a wnaeth eu gorau glas dan yr amgylchiadau mwyaf anodd i ddod â diwedd mwy cadarnhaol i'r digwyddiad erchyll hwn: gwasanaeth achub y pyllau glo, yr heddlu, y gwasanaeth tân a'r parafeddygon, a weithiodd, fel y dywedaso, yn ddiflino ac mewn perygl personol mawr ac o dan straen aruthrol i geisio dod â'r dynion hynny adref yn fyw. Roeddent yn benderfynol, hyd yn oed pan gollwyd pob gobaith, i ddod â'r dynion hynny adref at eu teuluoedd.

Mae dynoliaeth gyffredin pobl Pontardawe a'r cyffiniau yn eu hymateb i'r teuluoedd wedi cyffwrdd â chalonnau pawb. Clywn yn aml fod ein cymdeithas a'n cymunedau wedi newid mewn rhyw ffordd. Mae'r digwyddiad hwn wedi dangos i ni nad yw'r ddynoliaeth gyffredin honno a'r teimlad o berthyn wedi newid yng nghymunedau Cymru: mae mor fyw ac iach ag y bu erioed. Dan yr amgylchiadau mwyaf anodd, gwelwn yn aml y gorau o ddynolryw. Gwelsom hynny yn

best of humankind. We saw that in people's response and the support that the community will, I am sure, continue to offer the families. I agree, First Minister, that now is not the time for definitive answers as to what happened and why. You may be able to tell the Assembly when you expect the reports and investigations to conclude, and when you might be able give us an update in the Chamber.

To close, it may be that some people have wondered why there has been this response to this specific incident. In recent months, we have seen other workplace tragedies in which men and women lost their lives while simply doing their job. This recent incident is a reminder of our collective history and of our close connections to the mining industry, which are not so very far back. Indeed, my father was the first man in his family not to have to go down the pit. It connects us all, and that is why we have seen this response, because the incident is a reminder of our shared history and of the fact that no man should have to go to work, no matter what industry he is involved in, and not return home safe to his family.

The First Minister: There is no timescale yet for any investigation: it is a matter for those authorities with responsibility for conducting the investigation. When a report is available, I am sure that Members will take a deep interest in it.

The leader of the Welsh Liberal Democrats has outlined an important issue. So many of us in this Chamber come from a mining background. In my family, I represent the first generation in four not to have any miners in it. Men in my family have worked underground for over a century, and my position is no different from that of many others. We know that mining still has the capacity to touch the heart and strike a chord, not just in the south and the north-east of Wales, but around the world. We saw coverage of the tragedy around the world, and messages of support for the families and the community came from around the world.

It is true to say that the response of the local community was astonishing in terms of the

ymateb pobl ac yn y cymorth y bydd y gymuned, yr wyf yn siŵr, yn parhau i'w gynnig i'r teuluoedd. Yr wyf yn cytuno, Brif Weinidog, nad dyma'r amser am atebion pendant ynghylch beth ddigwyddodd a pham. Efallai y byddwch yn gallu dweud wrth y Cynulliad pryd rydych yn disgwyl i'r adroddiadau a'r ymchwiliadau ddod i ben, a phryd y gallech roi diweddariad i ni yn y Siambr.

I gloi, efallai bod rhai pobl wedi bod yn meddwl pam y bu ymateb fel hyn i'r digwyddiad penodol hwn. Yn y misoedd diwethaf, gwelsom drychinebau eraill yn y gweithle lle mae dynion a menywod wedi colli eu bywydau tra'n gwneud eu gwaith. Mae'r digwyddiad diweddar hwn yn ein hatgoffa o'n hanes ni i gyd a'n cysylltiadau agos â'r diwydiant mwyngloddio, nad yw'n bell iawn yn ôl. Yn wir, fy nhad oedd y dyn cyntaf yn ei deulu i beidio â gorfod mynd i lawr y pwll. Mae'n ein cysylltu ni i gyd, a dyna pam yr ydym wedi gweld yr ymateb hwn, oherwydd mae'r digwyddiad yn ein hatgoffa o'n hanes cyffredin ac o'r ffaith na ddylai unrhyw ddyn orfod mynd i'r gwaith, beth bynnag fo'r diwydiant, a pheidio â dychwelyd adref yn ddiogel at ei deulu.

Y Prif Weinidog: Nid oes amserlen eto ar gyfer unrhyw ymchwiliad: mae'n fater ar gyfer yr awdurdodau hynny sy'n gyfrifol am gynnal yr ymchwiliad. Pan fydd adroddiad ar gael, yr wyf yn siŵr y bydd gan Aelodau ddiddordeb mawr ynddo.

Mae arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi amlinellu mater pwysig. Mae cynifer ohonom yn y Siambr hon yn dod o gefndir glofaol. Yn fy nheulu i, yr wyf i'n cynrychioli'r genhedlaeth gyntaf mewn pedair i beidio â chynnwys unrhyw lowyr. Mae dynion yn fy nheulu i wedi gweithio dan ddaear am dros ganrif, ac nid yw fy sefyllfa i yn wahanol i nifer o bobl eraill. Gwyddom fod mwyngloddio yn dal i allu cyffwrdd â'r galon a tharo tant, nid yn unig yn y de a'r gogledd-ddwyrain, ond ledled y byd. Darlledwyd y drasiedi o amgylch y byd, a daeth negeseuon o gefnogaeth i'r teuluoedd a'r gymuned o bob cwr o'r byd.

Mae'n wir i ddweud bod ymateb y gymuned leol yn syfrdanol o ran y cymorth a roddwyd

support that it gave to those families at a time of great trial for them. This was mentioned to me when I visited the families at a difficult time, on the Friday morning, when they knew that one of the miners had been killed, but not which one—three families had yet to know. Unfortunately, the news got more difficult and tragic as the day went on. The one thing that they can be sure of, however, is that, even at this difficult time, when they are still only just beginning to grieve as families, they have so many people, within Wales and from around the world, standing shoulder to shoulder with them, thinking of them and remembering them in their prayers.

Gwenda Thomas: Diolch i chi, Brif Weinidog, am y datganiad, ac am eich presenoldeb yng nghymunedau Rhos a Chilybebyll. Mae'r digwyddiad yng ngwaith glo'r Gleision wedi bod yn ergyd ofnadwy, i'r teuluoedd yn bennaf, a hefyd i'r gymuned, i fy etholaeth ac yn ehangach. Mae'n iawn bod ymchwiliad, ond yr wyf yn cytuno â chi bod yn rhaid i ni aros am y canlyniadau. Bore yma, bûm yn Ysgol Gyfun Ystalyfera lle mae dau o'r disgyblion, Alex a Scott, wedi colli tad. Yr oedd bod ymhlith y plant a'r bobl ifanc yn rhoi hwb i'r galon oherwydd yr wyf yn credu, cyn belled ag y mae'r ysgol yn y cwestiwn, bod y plant a'r bobl ifanc yn gwybod sut i ymateb.

I would like to reflect on the resilience of the families. It was a very long wait in Rhos Community Hall; the atmosphere changed from hope to deeper and deeper anxiety, and then to dread—absolute dread. However, there was still a little girl playing with her toys on the floor of that hall. In latter years, we have become more relaxed about the impact of pit tragedies. We are no longer living daily with the fear of a mining tragedy as they had, to a degree, become a thing of the past. This tragedy has, however, brought back very painful memories to many of us. Those memories have also brought a closeness to our communities. That was the way we were. First Minister, you have mentioned the cave rescue team, the divers and the mines rescue service. The mines rescue service was a familiar sight in our communities not very long ago and I think that it brought a reality to the situation to see it there once again. You also mentioned the

i'r teuluoedd ar gyfnod anodd iawn iddynt. Soniwyd am hyn wrthyf pan ymwelais â'r teuluoedd ar adeg anodd, ar y bore Gwener, pan oeddent yn gwybod fod un o'r glowyr wedi'i ladd, ond nid pa un—roedd tri theulu eto i wybod. Yn anffodus, daeth y newyddion yn fwy anodd a thrasig wrth i'r dydd fynd yn ei flaen. Yr un peth y gallant fod yn siŵr ohono, fodd bynnag, hyd yn oed ar yr adeg anodd hon, wrth iddynt ddechrau galaru fel teuluoedd, yw bod cynifer o bobl, yng Nghymru ac ar draws y byd, yn sefyll ysgwydd yn ysgwydd â hwy, yn meddwl amdanynt ac yn eu cofio yn eu gweddiau.

Gwenda Thomas: Thank you, First Minister, for the statement, and for your presence in the communities of Rhos and Cilybebyll. The incident at the Gleision coalmine has been a terrible blow, for the families chiefly, but also for the community, my constituency and further afield. It is right that there should be an investigation, but I agree with you that we must wait for the results of that. This morning, I was at Ysgol Gyfun Ystalyfera where two of the pupils, Alex and Scott, have lost their father. Being among the children and young people cheered me up because I believe, as far as the school is concerned, that the children and young people know how to respond.

Hoffwn fyfyrto ar hydwythdedd y teuluoedd. Roedd yr aros yn hir iawn yn Neuadd Gymuned Rhos; newidiodd yr awyrgylch o obaith i bryder dyfnach a dyfnach, ac yna i arswyd—arswyd llwyr. Fodd bynnag, roedd merch fach yn dal i chwarae gyda'i theganau ar lawr y neuadd honno. Yn ddiweddar, rydym wedi dod yn fwy hamddenol am effaith trychinebau pwll. Bellach, nid ydym yn byw bob dydd gydag ofn trychineb lofaol achos yr oeddent, i raddau, wedi dod yn rhywbeth oedd yn perthyn i'r gorffennol. Fodd bynnag, mae'r drasiedi hon wedi dod ag atgofion poenus iawn yn ôl i lawer ohonom. Mae'r atgofion hynny hefyd wedi dod ag agosrwydd i'n cymunedau. Dyna sut oedd pethau. Brif Weinidog, rydych wedi crybwyll y tîm achub ogofâu, y deifwyr a'r gwasanaeth achub glofeydd. Heb fod yn hir yn ôl, roedd y gwasanaeth achub glofeydd yn olygfa gyfarwydd yn ein cymunedau ac rwy'n credu bod ei weld yno eto wedi dod â realiti i'r

fire and rescue service, the police and the ambulance service, all of whom of course had families of their own who were thinking about them. Also involved were the WRVS, the Red Cross, social services, individuals and businesses. A community spirit of support has been very real and abiding in this part of the Neath constituency. We think of the tragic death of the little boy and we also remember the dreadful murders of Catherine and Ben Mullany. Support for the families of the Gleision miners—the miners who lost their lives and the three who were able to escape, one of whom is being treated for his injuries in hospital—is local and widespread. I am sure, First Minister, that you will agree that we must now offer our support, our condolences and sympathies, but we must also now respect the need of the families to grieve.

The First Minister: I listened carefully to what Gwenda Thomas said and she was one of those who spent much time with the families during the very difficult experiences that they went through on Thursday and Friday. She mentioned the mine and cave rescue teams. There is one comment that I remember vividly from Friday. I went to thank the mines rescue team that was made up, in the main, of men who worked in the Aberpergwm drift mine in the Neath valley for the work that they were putting in and one of them said to me, 'It's not a question of being thanked; there's a man down there who's 62 years old and if he's prepared to go down there and work at 62, then I'm prepared to find him and I'll carry on until I do find him'. For me, that summed up in a few very short sentences the determination of the mines rescue teams and all the other people who were there who put so much effort into finding the men.

Suzy Davies: I take this opportunity to thank the First Minister and everyone else who has made a contribution today. We all find it difficult to talk about the tragic events of last week. Everyone was stunned and saddened by the unexpected turn of events at the Gleision mine on Thursday and Friday. The villages of the Swansea and Neath valleys have responded to the loss of their friends with warmth, generosity and unity. That may

sefyllfa. Sonioch hefyd am y gwasanaeth tân ac achub, yr heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans, ac roedd gan bob un ohonynt, wrth gwrs, deuluoedd eu hunain a oedd yn meddwl amdanynt. Yno hefyd roedd y WRVS, y Groes Goch, gwasanaethau cymdeithasol, unigolion a busnesau. Bu ysbryd cymunedol o gymorth gwirioneddol a diysgog yn y rhan hon o etholaeth Castell-nedd. Rydym yn meddwl am farwolaeth drasig y bachgen bach a chofiwn hefyd am lofruddiaethau ofnadwy Catherine a Ben Mullany. Mae cymorth ar gyfer teuluoedd glowyr y Gleision—y glowyr a gollodd eu bywydau a'r tri a lwyddodd i ddianc, ac un ohonynt yn cael ei drin am ei anafiadau yn yr ysbyty—yn lleol ac yn eang. Yr wyf yn siŵr, Brif Weinidog, y byddwch yn cytuno bod yn rhaid inni bellach gynnig ein cefnogaeth a'n cydymdeimlad, ond, bellach, rhaid inni hefyd barchu angen y teuluoedd i alaru.

Y Prif Weinidog: Gwrandewais yn astud ar yr hyn a ddywedodd Gwenda Thomas ac roedd hi'n un o'r rhai a dreuliodd lawer o amser gyda'r teuluoedd yn ystod y profiadau anodd iawn yr aethant drwyddynt ddydd Iau a dydd Gwener. Soniodd am dimau achub pyllau ac ogofâu. Mae un sylw yr wyf yn ei gofio'n glir o ddydd Gwener. Euthum i ddiolch i dîm achub y pyllau glo a oedd yn cynnwys, ar y cyfan, ddynion sy'n gweithio yng nghloddfa ddrifft Aberpergwm yng nghwm Nedd, am y gwaith yr oeddent yn ei wneud ac fe ddywedodd un ohonynt wrthyf, 'Nid mater o gael diolch ydyw; mae yna ddyn i lawr yna sydd yn 62 oed ac os yw e'n barod i fynd i lawr yna a gweithio yn 62 oed, yna yr wyf i'n barod i ddod o hyd iddo a byddaf yn dal ati nes y dof o hyd iddo'. I mi, roedd hynny'n crynhoi mewn ychydig frawddegau byr iawn benderfyniad timau achub y pyllau a'r holl bobl eraill a oedd yno a wnaeth gymaint o ymdrech i ddod o hyd i'r dynion.

Suzy Davies: Cymeraf y cyfle hwn i ddiolch i'r Prif Weinidog a phawb arall a gyfrannodd heddiw. Rydym i gyd yn ei chael yn anodd i siarad am ddigwyddiadau trasig yr wythnos diwethaf. Cafodd pawb eu syfrdanu a'u tristhau gan y digwyddiadau annisgwyl ym mhwl y Gleision ddydd Iau a dydd Gwener. Mae pentrefi Cwm Tawe a Chwm Nedd wedi ymateb i golli eu ffrindiau yn gynnes, yn hael a chydag undod. Efallai nad yw hynny'n

come as no surprise because these are places where the word 'community' still means something and where friendships with neighbours and responsibility for each other is a part of everyday life. The wider world has been inspired by that strength and closeness to express its own regret and sympathy to the families of those who died.

However, in whatever way we have all been affected by this terrible news, there are four families who are experiencing this as an intensely painful and completely personal tragedy. These are four families who had to endure the interminable wait for information, knowing that events were unfolding before cameras and microphones, and who finally faced the worst of truths. I pay tribute to those families. They were kind enough to speak not only to all their friends, but to strangers who came to see them with little to offer but words. How many times did they have to suspend their anxiety to try to put others at ease during those 36 hours or so? The dignity and bravery of those families have been humbling and a privilege to witness. The very least that we can do for those families, and for the survivors and their families, is to allow them the privacy that they have asked for.

The work of the miners rescue and emergency services remind us that people risk their lives for us and for others and that we take that for granted. I join in the tributes to the courageous teams who put themselves in danger last week. No more could have been asked of them.

I hope that the First Minister agrees that our contribution to the healing of these wounds is to insist on improvements to safety procedures. If we can make life safer for our rescue services, then we must do so. With increased interest in the south Wales coalfield, we must make life safer for those who extract fuel from it. It will not help to dwell on the past; this is a failing of today and a clear and present danger that must not become part of our future. I hope that the health and safety investigation will give the families the answers that they need. I also hope that it will direct us on the best way to improve safety in this inherently dangerous industry.

syndod, gan fod y rhain yn lleoedd lle mae'r gair 'cymuned' yn dal i olygu rhywbeth a lle mae cyfeillgarwch rhwng cymdogion a chyfrifoldeb at ei gilydd yn rhan o fywyd bob dydd. Mae'r byd ehangach wedi cael ei ysbrydoli gan y cryfder a'r agosatrwydd hwnnw i fynegi ei ofid a chydymdeimlad â theuluoedd y rhai a fu farw.

Fodd bynnag, waeth pa ffordd yr ydym i gyd wedi cael ein heffeithio gan y newyddion ofnadwy, mae pedwar o deuluoedd yn profi hyn fel trychineb hynod boenus a hollol bersonol. Dyma bedwar teulu a oedd yn gorfod dioddef aros maith am wybodaeth, gan wybod fod y digwyddiadau yn datblygu o flaen camerâu a meicroffonau, cyn gorfod wynebu'r gwirionedd gwaethaf. Talaf deyrnged i'r teuluoedd hynny. Roeddent yn ddigon caredig i siarad nid yn unig â'u holl ffrindiau, ond â dieithriaid a ddaeth i'w gweld gydag ychydig i'w gynnig ond geiriau. Sawl gwaith y bu'n rhaid iddynt atal eu pryder eu hunain er mwyn ceisio cysuro pobl eraill yn ystod y 36 awr hynny? Roedd urddas a dewrder diymhongar y teuluoedd hynny yn fraint i'w weld. Y peth lleiaf y gallwn ei wneud i'r teuluoedd hynny, a'r goroeswyr a'u teuluoedd, yw caniatáu'r preifatrwydd y maent wedi ofyn amdano.

Mae gwaith y gwasanaeth achub glowyr a'r gwasanaethau argyfwng yn ein hatgoffa bod pobl yn peryglu eu bywydau i ni ac eraill a'n bod yn cymryd hynny'n ganiataol. Ymunaf yn y teyrngedau i'r timau dewr a roddodd eu hunain mewn perygl yr wythnos diwethaf. Ni ellid bod wedi gofyn mwy ohonynt.

Gobeithio y bydd y Prif Weinidog yn cytuno mai ein cyfraniad ni i wella'r clwyfau hyn yw mynnu gwelliannau i weithdrefnau diogelwch. Os gallwn wneud bywyd yn fwy diogel i'n gwasanaethau achub, yna mae'n rhaid inni wneud hynny. Gyda mwy o ddiddordeb ym maes glo de Cymru, mae'n rhaid inni wneud bywyd yn fwy diogel i'r rhai sy'n echdynnu tanwydd ohono. Ni fydd meddwl gormod am y gorffennol yn helpu; methiant heddiw yw hwn, ac mae'n berygl clir na ddylai fod yn rhan o'n dyfodol. Gobeithio y bydd yr ymchwiliad iechyd a diogelwch yn rhoi'r atebion sydd eu hangen ar y teuluoedd. Gobeithio hefyd y bydd yr ymchwiliad yn ein cyfeirio at y ffordd orau i

wella diogelwch yn y diwydiant hwn, sydd, o ran ei natur, yn un peryglus.

The First Minister: There must be answers, of course, but it is important not to speculate on what happened, even though it is perfectly natural to seek answers and to seek them quickly. There must be a full investigation. All the appropriate authorities are involved in that investigation. It is important that we wait to find out what that investigation reveals in order to ensure that, if there are lessons to be learned, that is what will happen.

Y Prif Weinidog: Mae'n rhaid cael atebion, wrth gwrs, ond mae'n bwysig peidio â dyfalu ynghylch yr hyn a ddigwyddodd, er ei fod yn hollol naturiol i chwilio am atebion, a hynny yn gyflym. Mae'n rhaid cael ymchwiliad llawn. Mae pob un o'r awdurdodau priodol yn rhan o'r ymchwiliad hwnnw. Mae'n bwysig ein bod yn aros i gael gwybod beth y bydd yr ymchwiliad yn ei ddatgelu, er mwyn sicrhau, os oes gwersi i'w dysgu, mai dyna beth fydd yn digwydd.

Bethan Jenkins: Diolch am y datganiad heddiw.

Bethan Jenkins: Thank you for the statement today.

I will start by quoting Bob Williams, the Mayor of Pontardawe, who said over the weekend about what happened at the Gleision mine:

Dechreuaf drwy ddyfynnu Bob Williams, Maer Pontardawe, a ddywedodd dros y penwythnos am yr hyn a ddigwyddodd ym mhwl Gleision:

'When we walk past this place, we will think of tonight and we will remember them. We are here together as friends, family, neighbours and as a community, to remember four brave men and their grieving families. Time may heal the pain, but will never take away the memories'.

Pan fyddwn yn cerdded heibio'r lle hwn, byddwn yn meddwl am heno ac yn eu cofio. Rydym yma gyda'n gilydd fel ffrindiau, teulu, cymdogion ac fel cymuned, i gofio pedwar o ddynion dewr a'u teuluoedd sydd mewn galar. Gall amser leihau'r boen, ond ni fydd byth yn cael gwared ar yr atgofion.

Those words, spoken at the vigil that we held on Sunday night, sums up succinctly the tragedy and the effect it has had on the community of Pontardawe. As others have mentioned today, it seems so tragic, when so many of the arguments that we have in the Siambr are bound up in how we get Wales to work again, all these decades after the heavy industries that made and sustained this country began to desert us, that the coal industry would come back to haunt us again in this way.

Mae'r geiriau hynny, o'r wylnos nos Sul, yn crynhoi'r drychineb a'r effaith a gafodd ar gymuned Pontardawe. Fel y mae eraill wedi'i grybwyll heddiw, mae'n ymddangos mor drasig, pan fo cynifer o'r dadleuon a gawn yn y Siambr hon yn ymwneud â sut i gael Cymru yn ôl i weithio, ddegawdau ers i'r diwydiannau trwm a'n gwnaeth ac a'n cynhaliodd ddechrau ein gadael, bod y diwydiant glo yn dod yn ôl i aflonyddu arnom eto yn y ffordd hon.

As many of us have said, our focus must remain on the families of those men who have lost their lives, and on supporting them and the people who are looking after them. I also take the opportunity to pay tribute to the communities of Cilybebyll, Rhos, Godre'r-graig, Resolven, Pontardawe and the rest of the Swansea valley, whose families and communities have come together to help the families concerned.

Fel mae nifer ohonom wedi dweud, mae'n rhaid inni gadw ein ffocws ar deuluoedd y dynion sydd wedi colli eu bywydau, gan eu cefnogi, yn ogystal â'r bobl sy'n gofalu amdanynt. Rwyf hefyd yn cymryd y cyfle i dalu teyrnged i gymunedau Cilybebyll, Rhos, Godre'r-graig, Resolfen, Pontardawe a gweddill Cwm Tawe; mae teuluoedd a chymunedau'r ardal wedi dod at ei gilydd i helpu'r teuluoedd dan sylw.

I am fortunate enough to live in one of the communities in the area and it has been humbling to see how people have come together. At the time of the accident, I was at my home. There is no protocol for events such as this, so I went up, as Gwenda Thomas and others did, to see how the families were. It is difficult, because you do not want to impinge on their time and their problems, but you want to tell them that you are there for them. It would be good if many of us could go and be there for the families, because this is not going to go away in the next few months or even years; it will be with them forever. In the meantime, we need to let the families grieve. We have set up a miners' fund, which many of us are now patrons of. As Assembly Members, one positive thing that we can do is to give money to that fund for the families so we can look forward positively to the future.

I will finish, as Gwenda Thomas did, by commemorating the life of Harry Patterson. We have had quite a lot of tragedies in our area in recent times, and I hope that this will be the last one for the foreseeable future.

2.00 p.m.

Peter Black: I join the other Members in expressing my sadness and condolences to the families of the miners who so tragically lost their lives. I also thank the emergency services and the mine rescue team, whose commitment and dedication was unquestionable. They worked tirelessly, and we cannot express too much of our admiration for the work that they put in to find the miners as quickly as possible. It is a tragedy that they were not able to pull the miners out alive.

What came out of this for me was the strength of the communities involved, and the way that they came together to support the families by offering their sympathies and practical help. Coal flows through the veins of these communities, and has done so for many decades—perhaps for a century or more. As the First Minister said in his statement, nobody expected to have to cope with another tragedy of this kind. The fact that everyone came together and reacted in

Yr wyf yn ddigon ffodus i fyw yn un o'r cymunedau yn yr ardal ac mae wedi bod yn brofiad wylaidd i weld sut mae pobl wedi dod at ei gilydd. Pan ddigwyddodd y ddamwain, yr oeddwn yn fy nghartref. Nid oes protocol ar gyfer digwyddiadau fel hyn, felly euthum i, fel y gwnaeth Gwenda Thomas ac eraill, i weld sut oedd y teuluoedd. Mae'n anodd, gan nad ydych eisiau tresmasu ar eu hamser a'u problemau, ond rydych am ddweud wrthynt eich bod yno ar eu cyfer. Byddai'n dda pe gallai llawer ohonom fod yno ar gyfer y teuluoedd, gan na fydd hyn yn mynd i ffwrdd dros yr ychydig fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd nesaf; bydd yno am byth. Yn y cyfamser, mae angen i ni adael i'r teuluoedd alaru. Rydym wedi sefydlu cronfa lowyr, y mae llawer ohonom bellach yn noddwyr iddi. Fel Aelodau'r Cynulliad, un peth cadarnhaol y gallwn ei wneud yw rhoi arian i'r gronfa ar gyfer y teuluoedd fel y gallwn edrych ymlaen yn gadarnhaol i'r dyfodol.

Yr wyf am gloi, fel y gwnaeth Gwenda Thomas, trwy goffáu bywyd Harry Patterson. Rydym wedi cael cryn dipyn o drasiedïau yn ein hardal yn ddiweddar, ac yr wyf yn gobeithio mai hon fydd yr olaf am sbel.

Peter Black: Ymunaf â'r Aelodau eraill wrth fynegi fy nhriswch a chydymdeimlad â theuluoedd y glowyr a gollodd eu bywydau mewn amgylchiadau mor drasig. Diolch hefyd i'r gwasanaethau brys a'r tîm achub pwll glo, y mae eu hymrwymiad a'u hymroddiad yn ddiamheuol. Roedd eu gwaith yn ddiplino, ac nid ydym yn gallu mynegi gormod o'n hedmygedd am y gwaith a wnaethant i ddod o hyd i'r glowyr cyn gynted ag y bo modd. Mae'n drasiedi nad oeddent yn gallu tynnu'r glowyr allan yn fyw.

Yr hyn a ddaeth yn amlwg i mi o hyn oedd cryfder y cymunedau dan sylw, a'r ffordd y daethant at ei gilydd i gefnogi'r teuluoedd trwy gynnig eu cydymdeimlad a chymorth ymarferol. Mae glo yn llifo drwy wythiennau'r cymunedau hyn, ac wedi gwneud hynny ers degawdau—efallai am ganrif neu fwy. Fel y dywedodd y Prif Weinidog yn ei ddatganiad, nid oedd neb yn disgwyl gorfod ymdopi â thrasiedi arall o'r math hwn. Mae'r ffaith bod pawb wedi dod

the way that they did is important to those communities.

I echo Bethan Jenkins's remarks in relation to the fund that has been set up. That fund is important, and I am pleased that the UK Government is, in effect, adding 25 per cent to the contributions made towards it. It is important that this Chamber sends out a message to people to commit as much as they can to the fund, because the money that it raises will be important in helping the families.

Byron Davies: I am grateful for the opportunity to contribute. The heartbreaking events of last week are a tragic reminder of the enormous risks constantly facing those who work underground. Although it is small-scale operation, the exposure to danger at Gleision colliery is an inevitable ingredient of the industry, particularly given the physical method of mining employed at the small drift mine. At present, we can only speculate about how this tragedy occurred. It would be wrong to draw any conclusions from such speculation. We must await the findings of the joint investigation by South Wales Police, the Health and Safety Executive and the Wales Office into the cause of the accident in the colliery at Cilybebyll.

Tragically, we have become accustomed in Wales, given our mining past, to receiving such dreadful news from time to time. I remember well that awful day, 21 October 1966, when, as a young boy, I was summoned with the rest of my school to the assembly hall and told of the horrific events that had just occurred in Aberfan. Those of us in the hall felt numb as events unfolded on the television screen before us. Last Friday, in a similar vein, I listened intently to the news, hoping and praying that a positive outcome would be announced, but sadly this was not to be.

I, too, want to put on record my thanks to the rescue services: the mines rescue services, the Mid and West Wales Fire and Rescue

at ei gilydd ac ymateb yn y ffordd y gwnaethant yn bwysig i'r cymunedau hynny.

Ategaf sylwadau Bethan Jenkins am y gronfa sydd wedi ei sefydlu. Mae'r gronfa honno yn bwysig, ac yr wyf yn falch bod Llywodraeth y DU, i bob pwrpas, yn ychwanegu 25 y cant at y cyfraniadau a wnaed tuag ato. Mae'n bwysig bod y Siambr hon yn anfon neges i bobl i ymrwymo gymaint ag y gallant i'r gronfa, gan y bydd yr arian y mae'n ei godi yn bwysig wrth helpu'r teuluoedd.

Byron Davies: Yr wyf yn ddiolchgar am y cyfle i gyfrannu. Mae digwyddiadau torcalonnus yr wythnos diwethaf yn ein hatgoffa yn drasig o'r risgiau enfawr sydd yn gyson wynebu'r rhai sy'n gweithio o dan y ddaear. Er ei bod yn gweithredu ar raddfa fach, mae'r amlygiad i berygl yng nglofa Gleision yn elfen anochel o'r diwydiant, yn enwedig o ystyried y dull ffisegol o fwyngloddio a ddefnyddir yn y pwell driff bach. Ar hyn o bryd, ni allwn ond dyfalu sut y digwyddodd y drychineb hon. Ni fyddai'n iawn i ddod i unrhyw gasgliadau o ddyfalu o'r fath. Mae'n rhaid i ni aros am ganfyddiadau'r ymchwiliad ar y cyd gan Heddlu De Cymru, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch a Swyddfa Cymru i achos y ddamwain yn y lofa yng Nghilybebyll.

Yn drasig, yr ydym wedi dod i arfer yng Nghymru, o ystyried ein gorffennol mwyngloddio, â derbyn newyddion ofnadwy o'r fath o bryd i'w gilydd. Yr wyf yn cofio yn dda'r diwrnod ofnadwy, Hydref 21, 1966, pan, yn fachgen ifanc, cefais fy ngalw, gyda gweddill fy ysgol, i neuadd ymgynnull i glywed am y digwyddiadau erchyll a oedd newydd ddigwydd yn Aberfan. Yr oedd y rhai ohonom yn y neuadd yn teimlo'n ddiffwrwyth wrth i ddigwyddiadau ddatblygu ar y sgrin deledu o'n blaen. Ddydd Gwener diwethaf, yn yr un modd, gwrandewais yn astud ar y newyddion, gan obeithio a gweddio y byddai canlyniad cadarnhaol yn cael ei gyhoeddi, ond yn anffodus nid oedd hyn i fod.

Yr wyf fi, hefyd, yn awyddus i gofnodi fy niolch i'r gwasanaethau achub: y gwasanaethau achub pyllau glo, Gwasanaeth

Service, the police, ambulance services and the many others involved to whom we owe a great debt of gratitude. Major incident scenes of this magnitude require true professionals. We are fortunately blessed with the best in this respect.

Above all, I am saddened that this tragedy has occurred. I convey my sincere condolences to the families of Charles Breslin, Phillip Hill, Garry Jenkins and David Powell. My thoughts are also with Malcolm Fyfield as he recovers in Morriston Hospital, and with the others who, though they escaped injury, will doubtless be scarred by the experience. I know that, in the true tradition of the area, the communities in and around Pontardawe will support the families in their loss, now and in the years to come. However, it is incumbent on us all to ensure that the families are catered for in their needs, both welfare and financial. It is my fervent hope that the findings of the inquiry will assist them with coming to terms with this tragic loss and help to prevent other such disasters in the future.

The Presiding Officer: I thank you all for those moving tributes in that well-paced debate.

Tân ac Achub Gorllewin Cymru a'r Canolbarth a'r heddlu, gwasanaethau ambiwlans a'r nifer o bobl eraill dan sylw y mae gennym ddyled fawr o ddiolchgarwch iddynt. Y mae digwyddiadau o bwys o'r maint hwn yn gofyn am weithwyr gwir broffesiynol. Yn ffodus, rydym wedi ein bendithio gyda'r gorau yn hyn o beth.

Yn anad dim, yr wyf yn drist bod y drychineb hon wedi digwydd. Rwyf yn cyfleu fy nghydymdeimlad diffuant i deuluoedd Charles Breslin, Phillip Hill, Garry Jenkins a David Powell. Mae fy meddyliau hefyd gyda Malcolm Fyfield wrth iddo ddod ato'i hun yn Ysbyty Treforys, a chydag eraill a fydd, er eu bod wedi osgoi anaf, wedi eu creithio gan y profiad. Gwn y bydd y cymunedau ym Mhontardawe a chyfagos, yng ngwir draddodiad yr ardal, yn cefnogi'r teuluoedd yn eu colled, yn awr ac yn y blynyddoedd i ddod. Fodd bynnag, mae'n ddyletswydd ar bob un ohonom i sicrhau y darperir ar gyfer anghenion y teuluoedd, o ran lles ac yn ariannol. Fy ngobaith brwd yw y bydd canfyddiadau'r ymchwiliad yn eu cynorthwyo i ddod i delerau â'r golled drasig hon ac yn helpu i atal trychinebau eraill o'r fath yn y dyfodol.

Y Llywydd: Diolch yn fawr i chi gyd am y teyrngedau teimladwy yn y ddadl sionc honno.

Cwestiynau i'r Prif Weinidog Questions to the First Minister

Swyddi

1. Llyr Huws Gruffydd: *Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i greu swyddi yng Ngogledd Cymru. OAQ(4)0104(FM)*

Y Prif Weinidog: Bydd fy mlaenoriaethau ar gyfer creu swyddi drwy Gymru gyfan yn cael eu cynnwys o fewn y rhaglen ar gyfer llywodraethu.

Llyr Huws Gruffydd: Mae safle'r gwaith alwminiwm gynt yn Nolgarrrog yn Nyffryn Conwy yn sefyll yn wag ers nifer o flynyddoedd. Er gwaethaf nifer o ymdrechion blaenorol i ddenu buddsoddiad i'r safle, ac er gwaethaf ymgynghori lleol ar ddefnyddiau

Jobs

1. Llyr Huws Gruffydd: *What plans does the Welsh Government have to create jobs in North Wales. OAQ(4)0104(FM)*

The First Minister: My priorities to support job creation for the whole of Wales will be set out in the programme for government.

Llyr Huws Gruffydd: The site of the former aluminium works in Dolgarrog in the Conwy valley has stood empty for a number of years. Despite many previous efforts to attract investment to the site, and despite local consultation on possible uses for the site, as

posibl i'r safle, ynghyd â sôn mor ddiweddar â'r llynedd am wahanol geisiadau cynllunio, mae'r safle'n dal yn segur. Pa gynlluniau, felly, sydd gan Lywodraeth Cymru i ddenu buddsoddiad a swyddi i'r safle yn Nolgarrwg, yn enwedig o gofio ei fod yn allweddol o safbwynt adfywiad ehangach economi Dyffryn Conwy?

Y Prif Weinidog: Cafwyd ymdrechion yn ddiweddar, gan gynnwys rhai gan y cyn Ddirprwy Brif Weinidog, a bydd ymdrechion i ddenu buddsoddiad i Ddolgarrwg yn parhau. Nid yw cyflwr economi'r byd yn helpu, wrth gwrs, ond gwir yw dweud y bydd y safle yn y dyfodol yn gallu tynnu buddsoddiad i'r ardal, a bydd y gwaith yn parhau i sicrhau bod hynny'n digwydd.

Kenneth Skates: I warmly welcome the announcement that five enterprise zones are to be set up across the country, including one that will focus on advanced manufacturing in Deeside in north Wales. However, will you ensure that enterprise zones set up in Wales serve the interests of the regional economies, and avoid simply displacing investment and jobs from other communities?

The First Minister: That is a fair point; it has happened in the past with enterprise zones, and that is why a lot of thought has been given to ensuring that it does not happen in terms of the geography of the first tranche of enterprise zones, and with regard to the kind of investment that we are looking to bring into those areas.

Antoinette Sandbach: I, too, welcome the announcement on enterprise zones by the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science. I am delighted to hear that a lot of thought has been given to the regional benefits. Given the lack of detail in the announcement last night and in the Minister for business's responses to my written questions and correspondence, perhaps the First Minister could provide some detail and assure businesses in north Wales, many of which were concerned about delays in this issue, that officials have sufficient motivation and experience to make the most of the opportunities that enterprise zones present.

well as the suggestion as recently as last year of various planning applications, the site remains unoccupied. What plans, therefore, does the Government have to attract investment and jobs to the Dolgarrwg site, particularly bearing in mind that it is crucial in terms of the wider economic regeneration of the Dyffryn Conwy?

The First Minister: Recent efforts have been made, including some by the former Deputy First Minister, and efforts to attract investment to Dolgarrwg will continue. The state of the global economy is not helpful, of course, but it is true to say that the site will be able to attract investment into the area in future, and the work to ensure that that happens will continue.

Kenneth Skates: Yr wyf yn croesawu'n fawr y cyhoeddiad bod pum parth menter yn cael eu sefydlu ar draws y wlad, gan gynnwys un a fydd yn canolbwyntio ar weithgynhyrchu uwch yng Nglannau Dyfrdwy yng ngogledd Cymru. Fodd bynnag, a wnewch chi sicrhau bod parthau menter, a sefydlwyd yng Nghymru, yn gwasanaethu buddiannau economïau rhanbarthol, ac yn osgoi disodli buddsoddiad a swyddi o gymunedau eraill?

Y Prif Weinidog: Mae hwnnw'n bwynt teg; mae wedi digwydd yn y gorffennol gyda pharthau menter, a dyna pam mae llawer o feddwl wedi ei roi i sicrhau nad yw'n digwydd o ran daearyddiaeth y gyfran gyntaf o barthau menter, ac o ran y math o fuddsoddiad yr ydym yn edrych i'w ddod i mewn i'r ardaloedd hynny.

Antoinette Sandbach: Yr wyf innau, hefyd, yn croesawu'r cyhoeddiad ar barthau menter gan y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Rwyf wrth fy modd o glywed bod llawer o feddwl wedi cael ei roi i'r manteision rhanbarthol. O ystyried y diffyg manylion yn y cyhoeddiad neithiwr ac yn ymatebion y Gweinidog busnes i fy nghwestiynau ysgrifenedig a'm gohebiaeth, efallai y gallai'r Prif Weinidog roi rhywfaint o fanylion a rhoi sicrwydd i fusnesau yn y gogledd, yr oedd llawer ohonynt yn poeni am oedi yn y mater hwn, bod gan swyddogion ddigon o gymhelliant a phrofiad i wneud y gorau o'r cyfleoedd y mae parthau menter yn eu cyflwyno.

The First Minister: The five sites that have been chosen thus far have been chosen for their geography and their capacity to attract particular types of investment. The reason it took until now to make this announcement was because of a lack of clarity from the UK Government on capital allowances—we still have not received that clarity. However, we took the view that it was better to make the announcement now than to wait for a prevaricating Government at UK level in London to make its mind up.

Aled Roberts: Yr wyf innau'n croesawu cyhoeddiad neithiwr, ond a oes unrhyw wybodaeth ynglŷn â'r amserlen ar gyfer sefydlu'r ardaloedd hyn?

Prif Weinidog: Byddwn yn bwrw ymlaen i sicrhau bod yr ardaloedd hyn yn cael eu sefydlu cyn gynted ag y bo modd, ond mae'n bwysig ein bod yn cael mwy o wybodaeth am lwfansau cyfalaf i sicrhau pecyn mwy cynhwysfawr. Rhaid wrth y manylion hynny gan y Trysorlys, ond hyd yma, nid ydynt wedi dod.

Terfysgoedd

2. Julie Morgan: *Pa drafodaethau y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gyda'r heddlu a grwpiau cymunedol yng Nghymru yn dilyn y terfysgoedd yn Lloegr. OAQ(4)0107(FM)*

The First Minister: I had briefings from the police at the time of the riots. We did not have any riots in Wales, of course, but I know that community support workers have been active in a number of our communities during and after the events in England.

Julie Morgan: Thank you for that response. I would also like to express my gratitude to the police and to the chief executive of Cardiff Council, who kept local Members in touch during those difficult days and nights in August. Does the First Minister agree that the outreach work carried out by youth workers and by the police in Cardiff, particularly during the nights, was vital in stopping the spread of copycat urban riots into Wales?

Y Prif Weinidog: Mae'r pum safle a ddewiswyd hyd yn hyn wedi cael eu dewis ar gyfer eu daearyddiaeth a'u gallu i ddenu mathau penodol o fuddsoddiad. Y rheswm y cymerodd tan yn awr i wneud y cyhoeddiad hwn oedd oherwydd diffyg eglurder gan Lywodraeth y DU ar lwfansau cyfalaf—yr ydym yn dal i aros am yr eglurder hwnnw. Fodd bynnag, roeddem o'r farn ei bod yn well gwneud y cyhoeddiad yn awr nag aros am Lywodraeth anwadal ar lefel y DU yn Llundain i wneud ei meddwl i fyny.

Aled Roberts: I also welcome yesterday evening's announcement, but is there any information about the timetable for establishing these zones?

First Minister: We will proceed with this to ensure that these zones are established as soon as possible, but it is important that we get information about capital allowances so that we can provide a comprehensive package. We need those details from the Treasury, and, to date, they have not been made available.

Riots

2. Julie Morgan: *What discussions has the First Minister had with the police and community groups in Wales following the riots in England. OAQ(4)0107(FM)*

Y Prif Weinidog: Cefais fy mriffio gan yr heddlu adeg y terfysgoedd. Nid oedd gennym unrhyw derfysgoedd yng Nghymru, wrth gwrs, ond gwn fod gweithwyr cymorth cymunedol wedi bod yn weithgar mewn nifer o'n cymunedau yn ystod ac ar ôl y digwyddiadau yn Lloegr.

Julie Morgan: Diolch am yr ymateb hwnnw. Hoffwn hefyd fynegi fy niolech i'r heddlu ac i brif weithredwr Cyngor Caerdydd, a gadwodd Aelodau lleol mewn cysylltiad yn ystod y dyddiau a'r nosweithiau anodd hynny ym mis Awst. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno bod y gwaith allgymorth a wneir gan weithwyr ieuenctid a chan yr heddlu yng Nghaerdydd, yn enwedig gyda'r nos, yn hanfodol i atal terfysgoedd trefol tebyg rhag ymledu i Gymru?

The First Minister: Yes, very much so. I know that a lot of work was done by community workers in Cardiff and by the police and that, as a result of that work, we saw very few incidents in Wales, and certainly nothing more than could be expected on any night of the week.

Byron Davies: I am sure that you will join me in paying tribute to the Welsh police officers who demonstrated a great deal of respect for the Metropolitan Police Service and local communities in their participation in policing the riots and subsequent activity. Do you agree that an excess of social interference by the previous Government and its quangos in Westminster has led to a confused and broken society, with the police, as always in my experience, left to pick up the pieces? How does your Government propose to address this in Wales?

The First Minister: Let me see if I can get this right: you are saying that the riots in England in the summer were caused by quangos. I cannot quite work out where that question is coming from. The reality is this: if we had a Government at the UK level that was committed to the police, then it would be committed to maintaining police numbers; yet we know that the UK Government wishes to slash police numbers across England and Wales. If there was a true commitment to fighting crime on the part of the UK Government, it would not keep police numbers as they are, but increase them, which is just what the previous UK Government did.

Vaughan Gething: I share Julie Morgan's support and admiration for the youth service in Cardiff and for the work that it did in ensuring that we did not see a repeat of the riots in English cities here in Wales. However, do you agree with others that this was not simply a criminal outburst, but that underlying causes led to the civil disturbances? Do you agree that one of the major factors is the record level of youth unemployment, and that we have to ensure that does not turn into a lost generation, which would pose a greater risk of a repeat of the sort of civil disorder and loss of hope that

Y Prif Weinidog: Ydw, yn llwyr. Gwn fod llawer o waith yn cael ei wneud gan weithwyr cymunedol yng Nghaerdydd a chan yr heddlu ac, o ganlyniad i'r gwaith hwnnw, gwelsom ychydig iawn o achosion yng Nghymru, ac yn sicr dim byd mwy nag y gellid ei ddisgwyl ar unrhyw noson o'r wythnos.

Byron Davies: Yr wyf yn siŵr y byddwch yn ymuno â mi i dalu teyrnged i swyddogion yr heddlu yng Nghymru a oedd yn dangos llawer iawn o barch at Wasanaeth Heddlu y Metropolitan a chymunedau lleol o ran eu rhan yn plismona'r terfysgoedd a gweithgarwch dilynol. A ydych yn cytuno bod gormod o ymyrraeth gymdeithasol gan y Llywodraeth flaenorol a'i chwngos yn San Steffan wedi arwain at gymdeithas ddryslyda thoredig, gyda'r heddlu, fel bob amser yn fy mhrofiad i, yn cael ei gadael i godi'r darnau? Sut mae eich Llywodraeth yn bwriadu mynd i'r afael â hyn yng Nghymru?

Y Prif Weinidog: Gadewch i mi weld os gallaf gael hyn yn iawn: yr ydych yn dweud bod y terfysgoedd yn Lloegr yn yr haf wedi cael eu hachosi gan gwngos. Ni allaf weithio allan o ble mae'r cwestiwn hwnnw'n dod. Y realiti yw hyn: pe bai gennym Lywodraeth ar lefel y DU a oedd wedi ymrwymo i'r heddlu, yna byddai wedi ymrwymo i gynnal niferoedd yr heddlu; eto gwyddom bod Llywodraeth y DU yn dymuno torri niferoedd yr heddlu ledled Cymru a Lloegr. Os oedd ymrwymiad gwirioneddol i ymladd troseddau ar ran Llywodraeth y DU, ni fyddai'n cadw niferoedd yr heddlu fel y maent, ond yn eu cynyddu, sef yr hyn a wnaeth Llywodraeth flaenorol y DU.

Vaughan Gething: Rwyf yn rhannu cefnogaeth ac edmygedd Julie Morgan at y gwasanaeth ieuencid yng Nghaerdydd ac am y gwaith a wnaeth i sicrhau na welsom ailadrodd y terfysgoedd yn ninasoedd Lloegr yma yng Nghymru. Fodd bynnag, a gytunwch ag eraill nad ffrwydrad troseddol yn unig oedd hwn, ond bod achosion sylfaenol wedi arwain at yr aflonyddwch sifil? A ydych yn cytuno mai un o'r ffactorau mawr yw'r lefel uchaf erioed o ddiweithdra ymhlith pobl ifanc, a bod yn rhaid inni sicrhau nad yw'n troi i mewn i genhedlaeth goll, a fyddai'n peri mwy o risg o ailadrodd y

we have seen in England?

The First Minister: Youth unemployment is a serious problem for us, but it is right to say that the majority of the riots were caused simply by people intent on creating mayhem. We saw a large number of criminal acts, and one of the things that struck me was the number of people arrested and subsequently brought to the magistrates' court who were in good employment. The reality is that to ensure that riots like this do not happen again, there is a need to maintain, or indeed to increase, police numbers rather than reduce them as the UK Government plans.

Rhodri Glyn Thomas: Cytunaf â dau o'r pethau yr ydych wedi'u dweud ar y mater hwn. Er inni ymfalchïo yn y ffaith na ddigwyddodd unrhyw fath o wrthdrawiad mawr yng Nghymru yr adeg honno, iawn yw bod yn wylidwrus o'r sefyllfa a chanmol y gwaith cymunedol a wnaethpwyd i ddwyn pobl at ei gilydd ac i geisio sicrhau cymod yn ein cymunedau. Cytunaf hefyd â'r modd yr ydych wedi gwrthod priodoli'r terfysgoedd hyn i un rheswm yn unig, oherwydd mae perygl inni geisio darllen rhywbeth arall i mewn i'r digwyddiadau hyn. Fel yr ydych wedi dweud, mae llawer iawn mwy i hyn. A gytunwch fod yn rhaid inni fod yn wylidwrus o fudiadau megis Cynghrair Amddiffyn Lloegr a Chynghrair Amddiffyn Cymru sydd wedi bod yn gweithredu yn ein cymunedau gan geisio creu gwrthdrawiadau, a bod rhaid inni fod yn wylidwrus o oblygiadau gweithgareddau grwpiau felly?

Y Prif Weinidog: Neges casineb yw neges y cyrff hynny, wrth gwrs, a rhaid inni wrthod y negeseuon y maent yn ceisio'u cyflwyno, yn enwedig i'n pobl ifanc. Hoffwn ategu rhywbeth a ddywedais eisoes: mae'n briodol llongyfarch heddluoedd Cymru am y gefnogaeth a roesant i'r heddlu yn Lloegr. Bu iddynt ddangos proffesiynoldeb, fel y byddem yn erfyn gweld gan yr heddlu yma yng Nghymru.

Mick Antoniw: While Westminster is cutting police funding and numbers, this Government has given a commitment to appoint an extra 500 police community

math o anhrefn sifil a cholli gobaith a welsom yn Lloegr?

Y Prif Weinidog: Mae diweithdra ymhlith pobl ifanc yn broblem ddifrifol i ni, ond mae'n iawn dweud bod y rhan fwyaf o'r terfysgoedd wedi eu hachosi gan bobl a oedd yn benderfynol o greu anhrefn. Gwelsom nifer fawr o weithredoedd troseddol, ac un o'r pethau a'm trawodd oedd nifer y bobl a arestiwyd ac wedyn eu dwyn i lys yr ynadon a oedd mewn swyddi da. Y realiti yw er mwyn sicrhau nad yw terfysgoedd fel hyn yn digwydd eto, mae angen cynnal, neu yn wir gynyddu niferoedd yr heddlu yn hytrach na'u lleihau fel y mae Llywodraeth y DU yn fwiadu.

Rhodri Glyn Thomas: I agree with two of the things that you have said in your response. While we take pride in the fact that there was no major conflict of this kind in Wales on this occasion, it is right that we are cautious and praise the community work that has been done to bring people together and to try to bring reconciliation to our communities. I also agree with your refusal to blame these riots on one issue, because there is a danger that we try to read something else into these events. As you said, there is much more to it. Do you agree that we need to be wary of organisations such as the English Defence League and the Welsh Defence League that have been active in our communities, trying to whip up conflict, and that we need to be vigilant as to the implications of the activities of such groups?

The First Minister: Those groups are peddling a message of hate, and we must reject the messages that they are trying to convey, particularly to our young people. I would like to add one thing to what I said earlier: it is appropriate to congratulate Welsh police forces for the support that they gave to English forces. They demonstrated professionalism, which is what we would expect of the police in Wales.

Mick Antoniw: Tra bod San Steffan yn torri cyllid a niferoedd yr heddlu, mae'r Lywodraeth hon wedi ymrwymo i benodi 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu

support officers in Wales. Could you update us on the current state of that programme and address our concerns that they will be going to the areas where they are most needed?

2.15 p.m.

The First Minister: The police forces have submitted a proposal for implementation and it is currently being considered by the Minister for Local Government and Communities.

Jenny Rathbone: I want to just reiterate what my colleagues from Cardiff South and Cardiff North have said about the role played by the chief executive of Cardiff Council in keeping us all informed on the preventative measures that were taken. I just want to ask the Government how we are going to ensure that local councils are really clear on the need to maintain youth services that work collaboratively with police community support officers, so that we do not have disaffected youth who are simply out of control.

The First Minister: We know from experience in years gone by that where youth services are non-existent it can be more of a temptation for young people to perform acts of criminality. Everybody in this Chamber has been young at some point—some Members still are, I hope—and we know that young people often need to have services provided for them so that they have things to do. That is why there was such a commitment to youth services by the previous UK Government, and indeed by this Government. We have provided money for the all-Wales youth offending strategy—some £4.5 million during the course of the next financial year—and it demonstrates our commitment to making Welsh communities safer.

Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

The Leader of the Welsh Conservatives (Andrew R.T. Davies): First Minister, one of the important things when delivering public services is to have transparency. On my return from the Royal Welsh Show, there was a letter on my desk from the information

ychwanegol yng Nghymru. A allwch roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am gyflwr presennol y rhaglen honno a mynd i'r afael â'n pryderon y byddant yn mynd i'r ardaloedd lle mae eu hangen fwyaf?

Y Prif Weinidog: Mae'r heddluoedd wedi cyflwyno cynnig ar gyfer gweithredu ac mae'n cael ei ystyried gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau.

Jenny Rathbone: Rwyf eisiau ailadrodd yr hyn mae fy nghydweithwyr o Dde Caerdydd a Gogledd Caerdydd wedi'i ddweud am y rôl a chwaraewyd gan brif weithredwr Cyngor Caerdydd i'n cadw ni i gyd yn hysbys am y mesurau ataliol a gymerwyd. Rwyf eisiau gofyn i'r Llywodraeth sut y byddwn yn sicrhau bod cynghorau lleol yn wirioneddol glir ynghylch yr angen i gynnal gwasanaethau ieuencid sy'n gweithio ar y cyd â swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, fel nad oes gennym bobl ifanc dadrithiedig sy'n wirioneddol afreolus.

Y Prif Weinidog: Gwyddom o brofiad yn y blynyddoedd a fu bod mwy o demtasiwn, weithiau, i bobl ifanc droseddau lle nad oes unrhyw fath o wasanaethau ieuencid. Bu pawb yn y Siambr hon yn ifanc rhywbryd—mae rhai Aelodau'n dal yn ifanc, gobeithio—a gwyddom fod angen darparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc, yn aml, fel bod ganddynt bethau i'w gwneud. Dyna pam roedd cymaint o ymrwymiad i wasanaethau ieuencid gan Lywodraeth flaenorol y DU, ac yn wir gan y Llywodraeth hon. Rydym wedi darparu arian ar gyfer y strategaeth troseddwr ifanc Cymru gyfan—rhyw £4.5 miliwn yn y flwyddyn ariannol nesaf—ac mae'n dangos ein hymrwymiad i wneud cymunedau Cymru yn fwy diogel.

Questions Without Notice from the Party Leaders

Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Andrew R.T. Davies): Brif Weinidog, un o'r pethau pwysig wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus yw cael tryloywder. Ar ôl dychwelyd o Sioe Frenhinol Cymru, roedd llythyr ar fy nesg gan y comisiynydd

commissioner, supporting an appeal that I had made regarding your Government withholding the papers in relation to McKinsey's work on the national health service. Despite the legal obligation placed on your Government, you prevaricated when it came to releasing these papers. Why was that?

The First Minister: I welcome the leader of the opposition to his role formally; this is the first question that he has asked in that capacity. There will be some occasions when the information commissioner rules against a government. We accept, of course, the information commissioner's view and that information has now been provided.

Andrew R.T. Davies: I am grateful to you for providing that information, First Minister. I find it ironic that, in your answer to the previous question, you spoke about cuts in police numbers emanating from Westminster and other actions that have been undertaken there. May I enlighten you as to some of the productivity opportunities that were put forward as a result of McKinsey's work, in consultation with NHS officials? These included cutting 1,200 nurse positions or 5 per cent of the total, cutting the number of hospital beds and wards, closing NHS facilities, freezing promotions within the NHS, reducing the number of training places and leaving NHS vacancies unfilled. Can you give a commitment today that your Government will not undertake any of these actions that were highlighted in the work that was undertaken on behalf of your Government?

The First Minister: Have any of those actions been carried out? The answer to that is quite simply 'no'. The work was not carried out on behalf of the Government in any event. However, if we look at the record of his party across the border, we see the lack of midwives, the privatisation of the NHS, the long-term waiting lists that are far longer in England than they are in Wales, and the fact that his party wishes to impose a tax on people for taking medicines and tablets. One thing that I can say to the leader of the opposition is this: we have nothing to learn from his colleagues in London and we know

gwybodaeth, yn cefnogi apêl a wneuthum ynglŷn â'r ffaith bod eich Llywodraeth yn celu'r papurau mewn perthynas â gwaith McKinsey ar y gwasanaeth iechyd gwladol. Er gwaethaf y rwymedigaeth gyfreithiol a roddwyd ar eich Llywodraeth, buoch yn anwadal o ran cyhoeddi'r papurau hyn. Pam hynny?

Y Prif Weinidog: Yr wyf yn croesawu arweinydd yr wrthblaid i'w rôl yn ffurfiol; dyma'r cwestiwn cyntaf a ofynnodd yn rhinwedd y swydd honno. Bydd rhai achlysuron pan fydd y comisiynydd gwybodaeth yn rheoli yn erbyn llywodraeth. Rydym yn derbyn, wrth gwrs, farn y comisiynydd gwybodaeth ac mae'r gwybodaeth yn awr wedi cael ei darparu.

Andrew R.T. Davies: Yr wyf yn ddiolchgar ichi am ddarparu'r wybodaeth honno, Brif Weinidog. Mae'n eironig eich bod yn eich ateb i'r cwestiwn blaenorol wedi sôn am doriadau i nifer yr heddlu sy'n deillio o San Steffan, a champau gweithredu eraill sydd wedi cael eu cymryd yno. A gaf i'ch goleuo chi ynghylch rhai o'r cyfleoedd cynhyrchiant a gyflwynwyd o ganlyniad i waith McKinsey, mewn ymgynghoriad â swyddogion y GIG? Roedd y rhain yn cynnwys torri 1,200 o swyddi nyrsio, neu 5 y cant o'r cyfanswm, torri nifer y gwelyau a wardiau ysbytai, cau cyfleusterau GIG, rhewi dyrchafiadau o fewn y GIG, lleihau nifer y lleoedd hyfforddi a gadael swyddi gwag y GIG heb eu llenwi. A allwch chi roi ymrwymiad heddiw na fydd eich Llywodraeth yn ymgymryd ag unrhyw un o'r camau gweithredu hyn a amlygwyd yn y gwaith a wnaed ar ran eich Llywodraeth?

Y Prif Weinidog: A yw unrhyw un o'r camau hynny wedi'u gweithredu? Mae'r ateb yn eithaf syml: 'na'. Ni chafodd y gwaith ei wneud ar ran y Llywodraeth beth bynnag. Fodd bynnag, os edrychwn ar record ei blaid ar draws y ffin, yr ydym yn gweld y diffyg bydwragedd, preifateiddio'r GIG, y rhestrau aros hirdymor, sy'n llawer mwy yn Lloegr nag yng Nghymru, a'r ffaith bod ei blaid yn dymuno gosod treth ar bobl ar gyfer cymryd meddyginiaethau a thabledi. Un peth y gallaf ei ddweud wrth arweinydd yr wrthblaid yw hyn: nid oes gennym ddim i'w ddsygu oddi wrth ei gydweithwyr yn Llundain ac rydym

that whatever they do, he will do.

Andrew R.T. Davies: It is always enlightening to hear the First Minister spend so much time talking about Westminster. I have been told that on his visits to Westminster he has been likened to Andrew Lansley, so maybe in his spare time, when he plays a body double up in Westminster, he could spend more time talking about the English NHS. What we are debating here, First Minister, are those aspects that are your responsibility and the actions of your Government. I say to you that I know, from the discussions that I have had with health organisations, that there is a freeze on NHS positions, there is a reduction in jobs in the Welsh NHS and they are replicating the work that was undertaken on the instruction of your former Minister for health.

One thing that is required in public service is trust, First Minister. The other point that came out in the document was that LHB directors worried about stating the extent of the financial challenges that they faced or the extent of the cuts necessary as they were concerned about receiving an unfavourable response from the centre. Given that it is Labour's policy to cut health spending in Wales and it is the reverse of what we, as Welsh Conservatives, would do to the health service, can you commit today to working in consultation with health boards rather than bullying them into carrying out your actions? Trust is a critical component in delivering public services in Wales.

The First Minister: What he has failed to do is to stand up to the UK Government and demand more funding for Wales. We have seen the cuts that have been made to the Welsh budget, but what has his party done? It has tried to defend them. We have seen what is happening in England, which is relevant—I notice that he fails to defend his colleagues at Westminster—because the people of Wales know that if his party gets its hands on the levers of power, it will simply do in Wales what it has done in England. Then we shall see the neediest people suffering the most.

yn gwybod y bydd ef yn gwneud beth bynnag mae nhw yn ei wneud.

Andrew R.T. Davies: Mae wastad yn ddadlennol clywed y Prif Weinidog yn treulio cymaint o amser yn siarad am San Steffan. Rwyf wedi cael gwybod ei fod, ar ei ymweliadau â San Steffan, wedi cael ei gymharu ag Andrew Lansley, felly efallai yn ei amser sbâr, pan fydd yn ail Andrew Lansley lan yn San Steffan, y gallai dreulio mwy o amser yn siarad am y GIG yn Lloegr. Yr hyn yr ydym yn ei drafod yma, Brif Weinidog, yw'r agweddau sydd yn eich cyfrifoldeb chi, a gweithredoedd eich Llywodraeth chi. Rwy'n dweud wrthy ch fy mod yn gwybod, o'r trafodaethau yr wyf wedi'u cael gyda sefydliadau iechyd, bod yna rewi ar swyddi GIG, fod gostyngiad mewn swyddi yn y GIG yng Nghymru, ac maent yn dyblygu'r gwaith a wnaed o dan gyfarwyddyd eich cyn-Weinidog dros iechyd.

Un peth sydd ei angen mewn gwasanaethau cyhoeddus yw ymddiriedaeth, Brif Weinidog. Y pwynt arall a ddaeth allan yn y ddogfen oedd bod cyfarwyddwyr byrddau iechyd lleol yn poeni am ddweud beth yw maint yr heriau ariannol oedd yn eu hwynebu, neu faint y toriadau angenrheidiol, gan eu bod yn pryderu am gael ymateb anffafriol o'r canol. O ystyried ei bod yn bolisi Llafur i dorri gwariant ar iechyd yng Nghymru—y gwrthwyneb o'r hyn y byddem ni, fel Ceidwadwyr Cymreig, yn ei wneud i'r gwasanaeth iechyd—a allwch ymrwymo heddiw i weithio mewn ymgynghoriad â byrddau iechyd yn hytrach na'u bwlio i weithredu eich camau? Mae ymddiriedaeth yn elfen hollbwysig wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Y Prif Weinidog: Yr hyn y mae wedi methu ei wneud yw gwrthwynebu Llywodraeth y DU a mynnu mwy o arian i Gymru. Rydym wedi gweld y toriadau sydd wedi'u gwneud i gyllideb Cymru, ond beth mae ei blaid wedi ei wneud? Mae wedi ceisio eu hamddiffyn. Yr ydym wedi gweld yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr, sydd yn berthnasol—rwy'n sylwi ei fod yn methu amddiffyn ei gydweithwyr yn San Steffan—gan fod pobl Cymru yn gwybod, pe bai ei blaid yn cael ei dwylo ar yr awenau, bydd yn gwneud yng Nghymru'r hyn a wnaeth yn Lloegr. Yna cawn weld

mai'r bobl fwyaf anghenus sy'n dioddef fwyaf.

Andrew R.T. Davies: First Minister, if we were in Government, we would be protecting the Welsh health service, not inflicting the £1 billion-worth of cuts that your Government is inflicting on it. It has been said that you tried to sit on the papers and that it was only when the information commissioner insisted that you should release them that you did so. Can your Government be proud of the fact that trust and transparency do not run through its work in relation to the health service in Wales?

Andrew R.T. Davies: Brif Weinidog, pe baem mewn Llywodraeth, byddem yn diogelu'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru, ac nid yn creu £1 biliwn o doriadau y mae'ch Llywodraeth chi'n yn osod arno. Mae wedi cael ei ddweud eich bod wedi ceisio cuddio'r papurau, a'ch bod wedi eu cyhoeddi dim ond pan fynnodd y comisiynydd gwybodaeth ar hynny. A all eich Llywodraeth ymfalchïo yn y ffaith nad yw ymddiriedaeth a thryloywder yn elfen gyson yn eich gwaith mewn perthynas â'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru?

The First Minister: What lessons can we learn regarding transparency from the party opposite? It wants to see cuts of 20 per cent in the education budget, but it also depends on who you listen to: Nick Bourne said 24 per cent, others have said 20 per cent, and others have said 12 per cent. This Government is a beacon of transparency, as opposed to the fag-packet calculations that we get from the Tories. They say that they would increase health spending by £1 billion, but they never tell the people of Wales where that money would come from, other than from the devastation of education services and social services, which would ensure that the neediest people would lose access to the services that they need most. That is the level of transparency that we have from the Tories. Be honest with the people of Wales: they might even vote for you.

Y Prif Weinidog: Pa wersi ynghylch tryloywder y gallwn eu dysgu gan y blaid gyferbyn? Mae am weld toriadau o 20 y cant yn y gyllideb addysg, ond mae hefyd yn dibynnu ar bwy ydych yn gwranddo arnynt: dywedodd Nick Bourne 24 y cant, mae eraill wedi dweud 20 y cant, ac mae eraill wedi dweud 12 y cant. Mae'r Llywodraeth hon yn esiampl o dryloywder, yn hytrach na'r cyfrifiadau byrfyfyr yr ydym yn eu cael gan y Torïaid. Maent yn dweud y byddent yn cynyddu gwariant ar iechyd gan £1 biliwn, ond ni fyddant byth yn dweud wrth bobl Cymru o ble byddai'r arian hwnnw yn dod, ac eithrio drwy ddifrodi'r gwasanaethau addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol, a fyddai'n sicrhau bod y bobl fwyaf anghenus yn colli mynediad at y gwasanaethau y maent eu hangen fwyaf. Dyna lefel y tryloywder sydd gennym gan y Torïaid. Byddwch yn onest gyda phobl Cymru: efallai y gwnânt hyd yn oed yn bleidleisio drosoch chi.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): First Minister, will you outline to this Chamber what contact your Government had with Jaguar Land Rover about the possibility of securing 750 jobs, which, as was announced yesterday, will now go to Wolverhampton?

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): Brif Weinidog, a wnewch chi amlinellu i'r Siambr hon pa gysylltiad mae'ch Llywodraeth wedi ei gael gyda Jaguar Land Rover am y posibilrwydd o sicrhau 750 o swyddi, sydd, fel y cyhoeddwyd ddoe, yn awr yn mynd i Wolverhampton?

The First Minister: A great deal of work was put in to try to attract Jaguar Land Rover to Wales. However, we were informed in April that it would not be coming to Wales and that its preferred UK site was at Wolverhampton. The main reason for that

Y Prif Weinidog: Mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i geisio denu Jaguar Land Rover i Gymru. Fodd bynnag, fe'n hysbyswyd ym mis Ebrill na fyddai'n dod i Gymru ac mai Wolverhampton oedd ei safle detholedig yn y DU. Y prif reswm am hynny

was simply the proximity of the site to its assembly plants. Therefore, it has been known for some time that that is where it would go. However, the feedback that has been received from Jaguar Land Rover with regard to the presentation that was made to it has been very favourable. On this occasion, the geography of Wolverhampton meant that it won out over south Wales.

Kirsty Williams: One factor that has been mentioned by Jaguar Land Rover to explain its decision to go to Wolverhampton was the presence of an enterprise zone in the west midlands. First Minister, do you now regret that your Government, when it was trying to attract that investment into Wales, was not able to tell Jaguar Land Rover of its intention to create an automotive industry enterprise zone in Ebbw Vale? Do you regret not being in a position at that time to make that offer?

The First Minister: It was not clear that there was a site at Ebbw Vale for a development of this size. We do not know what has been offered to Jaguar Land Rover by the authorities in England in terms of capital allowances, for example. No-one has suggested that the fact that it is going to an enterprise zone is a factor. It has not suggested that, and neither has anyone else. The main factors are proximity and the travel costs of coming from south Wales to the assembly plants, given the current price of fuel. Nevertheless, it has made it clear that it wants to maintain a strong working relationship with us, and it does see opportunities for working with suppliers from south Wales to a greater extent in future, which will be to our benefit.

Kirsty Williams: Jaguar Land Rover is on record as saying that the presence of the enterprise zone in the west midlands was indeed a crucial factor in its decision to invest there, and I regret that the Welsh Government was not in a position to offer similar support to the company on that occasion. However, First Minister, now that we have heard your belated announcement that you will create enterprise zones, perhaps today you can tell Members, Welsh businesses and potential investors what support they will now be able

oedd agosrwydd y safle at ei gydosodfeydd. Felly, mae wedi bod yn hysbys ers sbel mai dyna lle byddai'n mynd. Fodd bynnag, mae'r adborth sydd wedi dod i law gan Jaguar Land Rover o ran y cyflwyniad a wnaed iddo wedi bod yn ffafriol iawn. Ar yr achlysur hwn, mae daearyddiaeth Wolverhampton yn golygu ei bod wedi ennill yn erbyn de Cymru.

Kirsty Williams: Un ffactor sydd wedi cael ei grybwyll gan Jaguar Land Rover i esbonio ei benderfyniad i fynd i'r Wolverhampton oedd presenoldeb parth menter yng ngorllewin canolbarth Lloegr. Brif Weinidog, a ydych yn awr yn gresynu nad oedd eich Llywodraeth, pan oedd yn ceisio denu'r buddsoddiad hwnnw i Gymru, yn gallu dweud wrth Jaguar Land Rover ei bwriad i greu parth menter diwydiant modurrol yng Nglyn Ebwy? A ydych yn gresynu nad oeddech mewn sefyllfa i wneud y cynnig bryd hynny?

Y Prif Weinidog: Nid oedd yn amlwg bod safle yng Nglyn Ebwy ar gyfer datblygiad o'r maint hwn. Nid ydym yn gwybod beth sydd wedi cael ei gynnig i Jaguar Land Rover gan yr awdurdodau yn Lloegr o ran lwfansau cyfalaf, er enghraifft. Nid oes neb wedi awgrymu bod y ffaith y bydd yn mynd i barth menter yn ffactor. Nid yw Jaguar Land Rover wedi awgrymu hynny nac unrhyw un arall. Y prif ffactorau yw agosrwydd a chostau teithio rhwng de Cymru a'r cydosodfeydd, o ystyried pris cyfredol tanwydd. Serch hynny, mae wedi gwneud yn glir ei fod am gynnal perthynas weithio gref gyda ni, ac mae'n gweld cyfleoedd i weithio gyda chyflenwyr o dde Cymru i raddau helaethach yn y dyfodol, a byddwn yn elwa.

Kirsty Williams: Mae Jaguar Land Rover wedi dweud ar goedd bod presenoldeb y parth menter yng ngorllewin canolbarth Lloegr yn wir yn ffactor allweddol yn ei benderfyniad i fuddsoddi yno, ac yr wyf yn gresynu nad oedd Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i gynnig cymorth tebyg i'r cwmni yr adeg honno. Fodd bynnag, Brif Weinidog, gan ein bod yn awr wedi clywed eich cyhoeddiad hwyr yn y dydd y byddwch yn creu parthau menter, efallai y gallwch ddweud wrth Aelodau, busnesau Cymru a

to enjoy from the Welsh Government. Will these enterprise zones deliver reduced business rates, relaxed planning controls and superfast broadband? When will you be in a position to put some meat on the bones of the very skinny announcement that was made yesterday?

The First Minister: I am not sure that it was known that there would be an enterprise zone in April, which is when we were told by Jaguar Land Rover that its preferred site was Wolverhampton. It was made quite clear to us that geography was the deciding factor in the application. This happened at the beginning of the year. Of course, we are looking at what we can offer in terms of planning, business rates and superfast broadband, and we will look to provide those services that will be provided in the enterprise zones in England. However, we need clarification from the Chief Secretary to the Treasury as to what is happening with capital allowances. We could then offer a more comprehensive package. I know that my colleague Edwina Hart has written in that vein and has written once again asking for clarification. If we get it, then we will be clearer on what the comprehensive package can be.

Kirsty Williams: In March, when we were all campaigning on the referendum, you promised the voters of Wales that if you got those extra powers, there would be no more excuses from your Government, yet today, on the first day back, we have had an excuse as to why you are not in a position to tell Members or businesses in Wales what support you can offer in your enterprise zones. Will you explain why you have chosen these specific areas and what will constitute success for your enterprise zone scheme? What can the areas that have been left out of the enterprise zones, such as life sciences and the creative industries, which form a crucial part of your economic renewal strategy, expect from your Government by way of ongoing support?

The First Minister: Other areas are still

buddsoddwyr posibl heddiw pa gymorth y byddant yn awr yn gallu ei fwynhau gan Lywodraeth Cymru. A fydd y parthau menter hyn yn darparu llai o ardrethi busnes, rheolaethau cynllunio llai llym a band eang cyflym iawn? Pryd y byddwch mewn sefyllfa i roi rhywfaint o gig ar esgyrn y cyhoeddiad tenau iawn a wnaed ddoe?

Y Prif Weinidog: Nid wyf yn siŵr ei bod yn hysbys y byddai parth menter ym mis Ebrill, a dyna pryd y dywedodd Jaguar Land Rover wrthym mai Wolverhampton oedd ei safle detholedig. Fe'i gwnaed yn gwbl glir i ni mai daearyddiaeth oedd y ffactor mwyaf dylanwadol yn y cais. Digwyddodd hyn ar ddechrau'r flwyddyn. Wrth gwrs, yr ydym yn edrych ar yr hyn y gallwn ei gynnig o ran cynllunio, ardrethi busnes a band eang cyflym iawn, a byddwn yn edrych i ddarparu'r gwasanaethau hynny a fydd yn cael eu darparu yn y parthau menter yn Lloegr. Fodd bynnag, mae angen eglurhad gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch yr hyn sy'n digwydd gyda lwfansau cyfalaf. Gallem wedyn gynnig pecyn mwy cynhwysfawr. Gwn fod fy nghyd-Aelod, Edwina Hart, wedi ysgrifennu yn yr un modd ac wedi ysgrifennu unwaith eto yn gofyn am eglurhad. Pe cawn ni hynny, byddwn yn gliriach ynghylch yr hyn y gall y pecyn cynhwysfawr fod.

Kirsty Williams: Ym mis Mawrth, pan oeddem i gyd yn ymgyrchu ar gyfer y refferendwm, addawsoch i bleidleiswyr Cymru na fyddai mwy o esgusodion gan eich Llywodraeth pe baech yn cael y pwerau ychwanegol hynny. Eto heddiw, ar y diwrnod cyntaf yn ôl, rydym wedi cael esgus i esbonio pam nad ydych mewn sefyllfa i ddweud wrth Aelodau neu fusnesau yng Nghymru pa gymorth y gallwch ei gynnig yn eich parthau menter. A wnewch chi egluro pam rydych wedi dewis y meysydd penodol hyn a beth fydd yn golygu llwyddiant ar gyfer eich cynllun ardal fenter? Beth all yr ardaloedd sydd wedi cael eu gadael allan o'r parthau menter, megis gwyddorau bywyd a'r diwydiannau creadigol, sy'n rhan hanfodol o'ch strategaeth adnewyddu'r economi, ei ddisgwyl gan eich Llywodraeth o ran cymorth parhaus?

Y Prif Weinidog: Rydym yn dal i edrych ar

being looked at in terms of developing enterprise zones; these are the areas that were ready to be announced, and they have been welcomed by business. I am sure that the Liberal Democrats feel disappointed by this, but the Institute of Directors and the business community have welcomed these announcements, and we think that this is the right approach. If you simply have enterprise zones that are not themed and do not have clustering around them, they will simply pinch business from elsewhere. We have seen that happen in other parts of Wales and in other parts of Britain. We want to ensure that the enterprise zones attract new investment, that they attract new jobs, and that they create the kind of economic activity that we believe can be created in these parts of Wales with such industries. It is a much more targeted approach than that which has been taken by the UK Government in England, which I consider to be broad brush and questionable.

The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): The Welsh general election campaign in May was fought against a very gloomy economic background. As I am sure the First Minister will accept, the situation has worsened considerably since then: we have seen a reduction in growth forecasts and a quite a substantial rise in unemployment levels. In these circumstances, it is right that the Welsh Government considers what extra support it should be giving to business. I understand that you have made an announcement on enterprise zones, but what specific other measures do you think the Welsh Government should now introduce to meet these even more challenging economic conditions?

The First Minister: One of the areas in which we will be moving forward in the very near future is the Welsh jobs fund. It is designed to ensure that, each year, 4,000 young people have access to training and apprenticeships. The way to bolster the Welsh economy in years to come is to ensure that our people have the skills they need for the future. The Welsh jobs fund replaces the jobs fund that was removed by the UK Government. It will ensure that our young people acquire the skills that they need and have the correct training so that Wales becomes an attractive place to invest.

feysydd eraill o ran datblygu parthau menter; dyma'r meysydd a oedd yn barod i gael eu cyhoeddi, ac maent wedi cael eu croesawu gan fusnesau. Yr wyf yn sicr y bydd y Democratiaid Rhyddfrydol yn teimlo'n siomedig am hyn, ond mae Sefydliad y Cyfarwyddwyr a'r gymuned fusnes wedi croesawu'r cyhoeddiadau hyn, ac yr ydym yn meddwl mai dyma'r dull cywir. Os oes gennych barthau menter sydd heb thema ac heb glystyrau o'u cwmpas, byddant yn dwyn busnes o fannau eraill. Yr ydym wedi gweld hynny'n digwydd mewn rhannau eraill o Gymru ac mewn rhannau eraill o Brydain. Rydym am sicrhau bod y parthau menter yn denu buddsoddiad newydd, yn denu swyddi newydd, ac yn creu'r math o weithgaredd economaidd y gellir ei greu yn y rhannau hyn o Gymru gyda diwydiannau o'r fath. Mae'n agwedd llawer mwy targededig nag agwedd Llywodraeth y DU yn Lloegr, sydd, yn fy marn i, yn rhy fras ac amheus.

Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones): Ymladdwyd ymgyrch etholiad cyffredinol Cymru ym mis Mai yn erbyn cefndir economaidd tywyll iawn. Fel yr wyf yn siŵr y bydd y Prif Weinidog yn derbyn, mae'r sefyllfa wedi gwaethygu yn sylweddol ers hynny: yr ydym wedi gweld gostyngiad mewn rhagolygon twf a chynnydd sylweddol mewn diweithdra. Yn yr amgylchiadau hyn, mae'n iawn bod Llywodraeth Cymru yn ystyried pa gymorth ychwanegol y gall ei roi i fusnes. Yr wyf yn deall eich bod wedi gwneud cyhoeddiad ar ardaloedd menter, ond pa fesurau penodol eraill, yn eich barn chi, y dylai Llywodraeth Cymru bellach eu cyflwyno i wynebu'r amodau economaidd hyn, sydd hyd yn oed yn fwy heriol?

Y Prif Weinidog: Un o'r meysydd lle y byddwn yn symud ymlaen yn y dyfodol agos iawn yw'r gronfa swyddi yng Nghymru. Mae wedi'i gynllunio i sicrhau, bob blwyddyn, y bydd 4,000 o bobl ifanc yn cael mynediad at hyfforddiant a phrentisiaethau. Y ffordd i hybu economi Cymru yn y blynyddoedd i ddod yw sicrhau bod gan ein pobl y sgiliau sydd eu hangen arnynt ar gyfer y dyfodol. Mae'r gronfa swyddi yng Nghymru yn disodli'r gronfa swyddi a gafodd ei dileu gan Lywodraeth y DU. Bydd yn sicrhau bod ein pobl ifanc yn ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt ac yn cael yr hyfforddiant cywir fel

Without investing in skills, our economy will never be able to grow at the rate that we would wish.

Ieuan Wyn Jones: I am a bit surprised by that response, First Minister, because that is already in your plan; it was announced as a commitment in your manifesto. The situation has worsened since May, and it is now considerably worse. When Alistair Darling was Chancellor of the Exchequer, he said that, this year, there would be UK growth rates of between 3.25 per cent and 3.75 per cent. In the first two quarters, the economy has grown by less than 1 per cent, and the Organisation for Economic Co-operation and Development is forecasting growth of less than 1 per cent for the whole year, so this is a massive difference from what you, Plaid Cymru, the Conservatives and the Liberal Democrats were planning for in our manifestos in May. At best, therefore, we will have flatlined growth this year.

2.30 p.m.

We have also seen unemployment grow; it is now at the same level as it was in the teeth of recession—it stands at 8.4 per cent. We are told that it will get even worse. In addition to what you already have in the pipeline, in terms of your support for business, what extra support is your Government going to provide in the next few months? Otherwise, the Welsh economy will be in an even worse position.

The First Minister: That is the first time that we have been criticised for implementing a manifesto commitment. However, let me give you one example of what we are doing. We have made a bid to host the Green Investment Bank; that bid was made at the beginning of this month. My colleague, Edwina Hart, sought a meeting with Vince Cable at the end of July to discuss the Green Investment Bank, but that meeting was, unfortunately, refused. Nevertheless, a bid has been made and we know that, when it comes to the Green Investment Bank, there is the potential to inject up to £15 billion into the economy over

bod Cymru'n dod yn lle deniadol i fuddsoddi. Heb fuddsoddi mewn sgiliau, ni fydd ein heconomi byth yn gallu tyfu mor gyflym ag y byddem yn ddymuno.

Ieuan Wyn Jones: Yr wyf yn synnu braidd at yr ymateb hwnnw, Brif Weinidog, gan fod hynny eisoes yn eich cynllun; fe'i cyhoeddwyd fel ymrwymiad yn eich maniffesto. Mae'r sefyllfa wedi gwaethygu ers mis Mai, ac mae bellach yn waeth o lawer. Pan oedd Alistair Darling yn Ganghellor y Trysorlys, dywedodd y byddai cyfraddau twf yn y DU eleni rhwng 3.25 y cant a 3.75 y cant. Yn y ddau chwarter cyntaf, mae'r economi wedi tyfu llai na 1 y cant, ac mae'r Sefydliad ar gyfer Economaidd Cydweithrediad a Datblygiad yn rhagweld twf o lai nag 1 y cant ar gyfer y flwyddyn gyfan, felly mae hwn yn wahaniaeth enfawr rhwng yr hyn yr oeddech chi, Plaid Cymru, y Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn gynllunio ar ei gyfer yn ein maniffesto ym mis Mai. Ar y gorau, felly, bydd gennym dwf wedi'i lefelu eleni.

Rydym hefyd wedi gweld diweithdra yn tyfu; mae yn awr ar yr un lefel ag yr oedd yn nannedd y dirwasgiad—mae'n sefyll ar 8.4 y cant. Dywedir wrthym y bydd yn mynd hyd yn oed yn waeth. Yn ychwanegol at yr hyn sydd gennych eisoes ar y gweill, o ran eich cefnogaeth i fusnesau, pa gefnogaeth ychwanegol y mae eich Llywodraeth yn mynd i ddarparu yn yr ychydig fisoedd nesaf? Fel arall, bydd economi Cymru mewn sefyllfa hyd yn oed yn waeth.

Y Prif Weinidog: Dyna'r tro cyntaf i ni gael ein beirniadu am weithredu ymrwymiad maniffesto. Fodd bynnag, gadewch imi roi un enghraifft i chi o'r hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym wedi gwneud cais i gynnal Banc Buddsoddi Gwyrdd; gwnaethpwyd y cais hwnnw ddechrau'r mis hwn. Ceisiodd fy nghydweithiwr, Edwina Hart, gyfarfod gyda Vince Cable ddiwedd mis Gorffennaf i drafod y Banc Buddsoddi Gwyrdd, ond, yn anffodus, gwrthodwyd y cyfarfod hwnnw. Serch hynny, mae cais wedi cael ei wneud ac rydym yn gwybod, o ran y Banc Buddsoddi Gwyrdd, bod potensial i chwistrellu hyd at

the next four years. That is the kind of project that we are bidding for, and that is the kind of project that will provide jobs in Wales.

Ieuan Wyn Jones: While I welcome the Green Investment Bank and the ideas for youth employment—although that is a major challenge—I am asking you to tell us whether you will change course and do something different. I have looked again at the budget of the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science. When the supplementary budget was announced, it became clear that her budget is being reduced by 6 per cent in cash terms over the next few years, whereas the overall reduction in cash terms for the rest of the budget is 1 per cent. That may have been right in the circumstances of the time, but we are now in different circumstances; the economy is in desperate trouble in Wales. We know that growth will go down and that unemployment will go up. Given those circumstances, is it not right that you think again about the budget of the Minister for business?

The First Minister: We are opting for the budget that you agreed for this financial year. However, I take the point; we always have to be flexible when it comes to looking at budgets. I do not accept for one moment that when the different political parties framed their manifestos for May, anyone thought that we were going to see an improvement in the economy very rapidly. Our manifesto was designed to deal with circumstances of slow economic growth, particularly given the economic policy of the UK Government. I have already mentioned two substantive policies that we will be implementing. As I said, the way to improve the Welsh economy is to look at investing in skills. The Welsh jobs fund is part of that, because we must present ourselves to the world as a country that has the skills that the world needs, rather than, as in the 1980s, a country with low wage rates.

Ieuan Wyn Jones: I am sorry, First Minister,

£15 biliwn i'r economi dros y pedair blynedd nesaf. Dyna'r math o brosiect yr ydym yn gwneud cais amdano, a dyna'r math o brosiect a fydd yn darparu swyddi yng Nghymru.

Ieuan Wyn Jones: Er fy mod yn croesawu'r Banc Buddsoddi Gwyrdd a'r syniadau ar gyfer cyflogaeth ieuencid—er bod hynny'n sialens enfawr—yr wyf yn gofyn i chi ddweud wrthym a fyddwch yn newid cwrs ac yn gwneud rhywbeth gwahanol. Rwyf wedi edrych eto ar gyllideb y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Pan gyhoeddwyd y gyllideb atodol, daeth yn amlwg bod ei chyllideb yn cael ei leihau o 6 y cant mewn termau arian parod dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, tra bod y gostyngiad cyffredinol mewn termau arian parod ar gyfer gweddill y gyllideb yn 1 y cant. Efallai bod hynny wedi bod yn iawn o dan yr amgylchiadau ar y pryd, ond yr ydym yn awr mewn gwahanol amgylchiadau; mae'r economi mewn trafferth enbyd yng Nghymru. Rydym yn gwybod y bydd twf yn mynd i lawr ac y bydd diweithdra'n mynd i fyny. O ystyried yr amgylchiadau hynny, onid yw'n iawn eich bod yn meddwl eto am gyllideb y Gweinidog busnes?

Y Prif Weinidog: Yr ydym yn dewis y gyllideb y cytunoch arni ar gyfer y flwyddyn ariannol hon. Fodd bynnag, derbyniaf y pwynt; mae angen i ni bob amser fod yn hyblyg pan ddaw i edrych ar gyllidebau. Nid wyf yn derbyn am eiliad pan fframiodd y gwahanol bleidiau gwleidyddol eu maniffestos ar gyfer mis Mai, bod unrhyw un wedi meddwl ein bod yn mynd i weld gwelliant yn yr economi yn gyflym iawn. Cynlluniwyd ein maniffesto i ymdrin ag amgylchiadau o dwf economaidd araf, yn enwedig o ystyried polisi economaidd Llywodraeth y DU. Rwyf eisoes wedi sôn am ddau bolisi sylweddol y byddwn yn eu rhoi ar waith. Fel y dywedais, y ffordd i wella economi Cymru yw edrych ar fuddsoddi mewn sgiliau. Mae'r gronfa swyddi yng Nghymru yn rhan o hynny, oherwydd rhaid inni gyflwyno ein hunain i'r byd fel gwlad sydd â'r sgiliau y mae'r byd ei angen, yn hytrach nag, fel yn y 1980au, gwlad sydd â chyfraddau cyflog isel.

Ieuan Wyn Jones: Mae'n ddrwg gennyf,

but I regard that, yet again, as a very complacent answer. You are just telling us what you were planning to do anyway. The situation is worse than it was in May; it is no good trying to say that the budget that was fixed in a different economic time is fit for purpose today. Are you prepared to look again at that budget? Let me tell you what the One Wales Government did when faced with a similar situation—you were part of that. We set up the ProAct scheme and put more money into the ReAct scheme. What you have done—because you thought that the economy was improving—is scrap ProAct and reduce the budget for ReAct. Now that circumstances are different, will you look again at reintroducing ProAct and put more money into ReAct? Are you, for example, given the awful situation that we are in, going to be looking for an extraordinary economic summit to get people around the table to discuss the future of the Welsh economy? What we want to hear from you, First Minister, is not what you have already planned, but what you will do given the enormous challenges that the economy will now face. What will you do to support your own Minister for business in delivering that?

The First Minister: It seems to me that the leader of Plaid Cymru is criticising me for saying what I am planning to do, while at the same time saying that I should be saying what I am planning to do. We presented our manifesto in the elections in May and our manifesto was the one on which the Government was elected. It contained concrete proposals to help the Welsh economy. At the time the decision was taken on ProAct, you were in Government. There are also schemes such as Skills Growth Wales, which help to promote skills as we move forward. The reality of the situation is that we are looking to attract investment to Wales, we are bidding for the Green Investment Bank, and we are investing in the skills of our young people. These are all things that we promised to do at election time. They are what the people of Wales want to see. We had the most dynamic

Brif Weinidog, ond yr wyf yn ystyried hynny, unwaith eto, fel ateb hunanfodlon iawn. Rydych ond yn dweud wrthym beth yr oeddech yn bwriadu ei wneud beth bynnag. Mae'r sefyllfa yn waeth nag yr oedd ym mis Mai; nid oes diben ceisio dweud bod y gyllideb a sefydlwyd mewn amser economaidd gwahanol yn addas at y diben heddiw. A ydych yn barod i edrych eto ar y gyllideb honno? Gadewch imi ddweud wrthych yr hyn a wnaeth Llywodraeth Cymru'n Un wrth wynebu sefyllfa debyg—roeddech yn rhan o hynny. Sefydldom y cynllun ProAct a rhoi mwy o arian i mewn i'r cynllun ReAct. Yr hyn yr ydych chi wedi ei wneud—oherwydd eich bod yn meddwl bod yr economi yn gwella—yw cael gwared ar ProAct a lleihau'r gyllideb ar gyfer ReAct. Nawr bod yr amgylchiadau yn wahanol, a wnewch edrych eto ar ailgyflwyno ProAct a rhoi mwy o arian i mewn i ReAct? A fyddwch chi, er enghraifft, o ystyried y sefyllfa ofnadwy yr ydym ynnddi, yn edrych am uwchgynhadledd economaidd arbennig i gael pobl o amgylch y bwrdd i drafod dyfodol economi Cymru? Yr hyn yr ydym am ei glywed gennych, Brif Weinidog, yw nid yr hyn yr ydych eisoes wedi'i gynllunio, ond beth fyddwch yn ei wneud o ystyried yr heriau enfawr y bydd yr economi bellach yn wynebu. Beth fyddwch chi'n ei wneud i gefnogi eich Gweinidog busnes eich hun i gyflawni hynny?

Y Prif Weinidog: Mae'n ymddangos i mi bod arweinydd Plaid Cymru yn fy meirniadu am ddweud beth yr wyf yn bwriadu ei wneud, tra ar yr un pryd yn dweud y dylwn fod yn dweud beth yr wyf yn bwriadu ei wneud. Cyflwynwyd ein maniffesto yn yr etholiadau ym mis Mai a'n maniffesto ni oedd yr un yr etholwyd y Llywodraeth arno. Yr oedd yn cynnwys cynigion pendant er mwyn helpu economi Cymru. Ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad ar ProAct, yr oeddech chi yn y Llywodraeth. Mae yna gynlluniau megis Sgiliau Twf Cymru, sy'n helpu i hyrwyddo sgiliau wrth inni symud ymlaen hefyd. Realiti'r sefyllfa yw ein bod yn ceisio denu buddsoddiad i Gymru, rydym yn gwneud cais ar gyfer y Banc Buddsoddi Gwyrdd, ac yr ydym yn buddsoddi yn sgiliau ein pobl ifanc. Mae'r rhain i gyd yn bethau yr addawsom eu gwneud adeg yr etholiad. Dyna mae pobl Cymru am ei weld. Ni oedd â'r

manifesto, and now we are going to be dynamic in implementing it.

Cronfa Ddysgu'r Undebau

3. Mick Antoniw: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu polisi ac amcanion Llywodraeth Cymru mewn perthynas â Chronfa Ddysgu'r Undebau. OAQ(4)0105(FM)*

The First Minister: The Wales union learning fund recognises the valuable role of the trade union movement in improving the skills of the Welsh workforce. We know, through independent evaluation, that it has been successful.

Mick Antoniw: Some of us have seen at first hand the excellent work that has been done in providing new skills, as well as literacy and basic skills, to improve workers' advancement, yet there are some who besmirch this fund. Could you outline the Government's continued support for the union learning fund and its future funding?

The First Minister: Yes. We have shown our commitment to the Wales union learning fund. We know that it is a success story, we know that it has been independently evaluated, and we know that over 16,000 people and 600 employers have received support. That can only be good for improving people's skills levels for the future.

Janet Finch-Saunders: Rather than besmirch the reputation of the union learning fund, I welcome the fact that it offers learning opportunities to improve skills in the workforce. However, does the First Minister agree that the training and skills available to trade union members through this scheme should be available to all workers and all those seeking work in Wales? The only way in which we can rebuild the Welsh economy is by engaging with big society and empowering people to take their future in their hands. Opportunities for social enterprise, local training, volunteering and apprenticeships will truly improve the flexibility and ability of the entire Welsh

manifesto mwyaf deinamig, ac rydym yn awr yn mynd i fod yn ddeinamig wrth ei weithredu.

The Union Learning Fund

3. Mick Antoniw: *Will the First Minister outline the Welsh Government's policy and objectives in respect of the Union Learning Fund. OAQ(4)0105(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae cronfa ddysgu undebau Cymru yn cydnabod rôl werthfawr y mudiad undebau llafur i wella sgiliau gweithlu Cymru. Rydym yn gwybod, drwy werthusiad annibynnol, ei fod wedi bod yn llwyddiannus.

Mick Antoniw: Mae rhai ohonom wedi gweld â'n llygaid ein hunain y gwaith ardderchog sydd wedi'i wneud o ran darparu sgiliau newydd, yn ogystal â llythrennedd a sgiliau sylfaenol, er mwyn gwella datblygiad gweithwyr, ac eto mae rhai sy'n parhau'r gronfa hon. A allwch chi amlinellu cefnogaeth barhaus y Llywodraeth ar gyfer cronfa ddysgu'r undebau a'i chyllideb yn y dyfodol?

Y Prif Weinidog: Gwnaf. Rydym wedi dangos ein hymrwymiad i gronfa ddysgu undebau Cymru. Rydym yn gwybod ei bod yn llwyddiant, rydym yn gwybod ei fod wedi cael ei werthuso'n annibynnol, ac rydym yn gwybod bod dros 16,000 o bobl a 600 o gyflogwyr wedi derbyn cefnogaeth. Gall hynny ond bod yn dda ar gyfer gwella lefelau sgiliau pobl ar gyfer y dyfodol.

Janet Finch-Saunders: Yn hytrach na pharhau enw da cronfa ddysgu'r undebau, croesawaf y ffaith ei fod yn cynnig cyfleoedd dysgu i wella sgiliau yn y gweithlu. Fodd bynnag, a yw'r Prif Weinidog yn cytuno y dylai'r hyfforddiant a'r sgiliau sydd ar gael i aelodau undebau llafur drwy'r cynllun hwn fod ar gael i bob gweithiwr a phawb sy'n chwilio am waith yng Nghymru? Yr unig ffordd y gallwn ail-adeiladu economi Cymru yw drwy ymgysylltu â chymdeithas fawr a grymuso pobl i gymryd eu dyfodol yn eu dwylo. Bydd cyfleoedd ar gyfer menter gymdeithasol, hyfforddiant lleol, gwirfoddoli a phrentisiaethau yn wirioneddol gwella hyblygrwydd a gallu'r gweithlu Cymraeg yn

workforce—much more than a union-focused, single-minded and selective approach. Does the First Minister accept that the concept of big society is a key contributor to bringing Wales out of recession, and will he commit to improving access to skills training for everyone who needs it, not just for trade union members?

The First Minister: I would love to know what ‘engaging with big society’ means, and I am sure that most of the public would love to know as well. Of course we want to promote social enterprise; of course we want to help third sector organisations; of course we want to ensure that people are empowered in their communities. However, there are differences within the UK: in England, that happens without funding, but in Wales funding is provided. It is simple; that is the main difference. Big society in England means taking over services previously provided by the public sector without any extra funding.

I welcome your comments about the Wales union learning fund. Alun Cairns, had he still been here, would have been tutting and shaking his head, because he saw it as a bung to the Labour Party—he must be tweeting about this now—but you came back, towards the end, to the usual Tory view. Of course we want to ensure that there is skills provision for as many people as possible, but trade unions provide a tremendous service in training their members, and over 600 employers have seen that as well.

Vaughan Gething: First Minister, I do not know if you are fully aware, but, since 2004 the union learning fund in Wales has engaged with over 42,000 learners and over 1,400 different workplaces. I saw that work during my time at the Wales Trades Union Congress. Do you agree that narrow-minded dogma would triumph over practical and effective workplace learning if the union learning fund was cancelled now? We are looking to this Government to continue to support union-based learning in the workplace for the remainder of its period in

gyfan—yn llawer mwy na dull unplyg a detholus sy’n canolbwyntio ar undebau. A yw’r Prif Weinidog yn derbyn bod y cysyniad o gymdeithas fawr yn gyfrannwr allweddol at ddod â Chymru allan o’r dirwasgiad, ac a wnaiff ymrwymo i wella mynediad at hyfforddiant sgiliau i bawb sydd ei angen, nid ar gyfer aelodau undeb llafur yn unig?

Y Prif Weinidog: Byddwn wrth fy modd gwybod beth mae ‘ymgysylltu â chymdeithas fawr’ yn olygu, ac yr wyf yn sicr y byddai’r rhan fwyaf o’r cyhoedd wrth eu bodd yn gwybod hefyd. Wrth gwrs rydym eisiau hyrwyddo menter gymdeithasol; wrth gwrs rydym am helpu mudiadau trydydd sector; wrth gwrs yr ydym am sicrhau bod pobl yn cael eu grymuso yn eu cymunedau. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau o fewn y DU: yn Lloegr, mae hynny’n digwydd heb gyllid, ond yng Nghymru caiff cyllid ei ddarparu. Mae’n syml; dyna’r prif wahaniaeth. Mae cymdeithas fawr yn Lloegr yn golygu cymryd drosodd gwasanaethau a ddarparwyd yn flaenorol gan y sector cyhoeddus heb unrhyw gyllid ychwanegol.

Croesawaf eich sylwadau am gronfa ddysgu undebau Cymru. Byddai Alun Cairns, pe bai dal yma, wedi bod yn twtiau ac ysgwyd ei ben, gan ei fod yn ei weld fel cil-dwrn i’r Blaid Lafur—mae’n rhaid ei fod yn trydar am hyn nawr—ond daethoch yn ôl, tua’r diwedd, i farn arferol y Torïaid. Wrth gwrs rydym am sicrhau bod darpariaeth sgiliau ar gyfer cymaint o bobl ag y bo modd, ond mae undebau llafur yn darparu gwasanaeth aruthrol wrth hyfforddi eu haelodau, ac mae dros 600 o gyflogwyr wedi gweld hynny hefyd.

Vaughan Gething: Brif Weinidog, nid wyf yn gwybod os ydych yn gwbl ymwybodol o hyn, ond, ers 2004 mae’r gronfa ddysgu undebau yng Nghymru wedi ymgysylltu gyda dros 42,000 o ddysgwyr a dros 1,400 o weithleoedd gwahanol. Gwelais y gwaith hwnnw yn ystod fy amser yn y Gyngres Undebau Llafur Cymru. A ydych yn cytuno y byddai dogma culfrydig yn goroesi dros ddysgu ymarferol ac effeithiol yn y gweithle os byddai’r gronfa ddysgu undebau yn cael ei ganslo nawr? Rydym yn edrych i’r Llywodraeth hon i barhau i gefnogi dysgu a

Government.

ddarperir gan yr undeb yn y gweithle am weddill ei chyfnod yn y Llywodraeth.

The First Minister: Yes, I can give that commitment.

Y Prif Weinidog: Gallaf, gallaf roi'r ymrwymiad hwnnw.

Cydraddoldeb

Equality

4. Lindsay Whittle: *Pa gamau fydd y Prif Weinidog yn eu cymryd i sicrhau y bydd y materion sy'n ymwneud â chydraddoldeb yng Nghymru yn cyfrannu at lunio polisiau yn y dyfodol yn gyffredinol. OAQ(4)0110(FM)*

4. Lindsay Whittle: *What steps will the First Minister take to ensure that issues concerning equality in Wales will inform future policy-making across the board. OAQ(4)0110(FM)*

The First Minister: The Welsh Government was the first administration in the UK to publish its specific duties under the Equality Act 2010. We believe that those duties will make a positive difference to people's lives.

Y Prif Weinidog: Llywodraeth Cymru oedd y weinyddiaeth gyntaf yn y DU i gyhoeddi ei dyletswyddau penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Rydym yn credu y bydd y dyletswyddau hynny'n gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.

Lindsay Whittle: I welcome the launch of the Welsh Government's 'Live Fear Free' campaign, and we eagerly await more details on the draft Bill. You will be aware that two women a week are being killed by a current or ex-partner in England and Wales and that 54 per cent of rape is being committed by a current or former partner. First Minister, I am sure that you agree that it is vital that the upcoming domestic abuse (Wales) Bill covers prevention as well as service provision. Do you agree that the prevention of domestic abuse relies heavily on tackling the attitudes that lead to the acceptance and normalisation of violence against women and that the Bill should extend to working with specialist third sector agencies, such as Welsh Women's Aid, and in schools to challenge these attitudes?

Lindsay Whittle: Rwy'n croesawu lansiad ymgyrch 'Byw Heb Ofn' Llywodraeth Cymru, ac yr ydym yn aros yn eiddgar am fwy o fanylion am y Bil drafft. Byddwch yn ymwybodol bod dwy fenyw yr wythnos yn cael eu lladd gan bartner presennol neu flaenorol yn Lloegr a Chymru, a bod 54 y cant o drais rhywiol yn cael ei gyflawni gan bartner presennol neu flaenorol. Brif Weinidog, yr wyf yn siŵr y cytunwch ei bod yn hanfodol bod y Bil cam-drin domestig (Cymru) arfaethedig yn cwmpasu ataliaeth yn ogystal â darparu gwasanaethau. A ydych yn cytuno bod atal cam-drin domestig yn dibynnu'n helaeth ar fynd i'r afael â'r agweddau sy'n arwain at dderbyn a normaleiddio trais yn erbyn menywod ac y dylai'r Bil ymestyn i weithio gydag asiantaethau trydydd sector arbenigol, fel Cymorth i Fenywod Cymru, ac mewn ysgolion i herio'r agweddau hyn?

The First Minister: Yes, I agree.

Y Prif Weinidog: Ydw, yr wyf yn cytuno

Christine Chapman: First Minister, you will be aware that this Assembly is one of the most gender-balanced in the world. We are all very proud of that fact and would like to spread that good practice to other legislatures and policy-making bodies. I am very pleased that your Government has committed to ensuring that public bodies have more women members. Could you outline what steps are being taken to address that?

Christine Chapman: Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol bod y Cynulliad hwn yn un o'r rhai mwyaf cytbwys rhwng y rhywiau. Rydym i gyd yn falch iawn o'r ffaith honno a byddem yn hoffi lledaenu'r arfer da hwnnw i deddfwrfeydd eraill a chyrrff sy'n llunio polisi. Rwy'n falch iawn bod eich Llywodraeth wedi ymrwymo i sicrhau bod cyrrff cyhoeddus yn cael mwy o aelodau sy'n fenywod. A allech amlinellu pa gamau sy'n

cael eu cymryd i fynd i'r afael â hynny?

The First Minister: You will know that, in the manifesto on which we were elected, we said that we would seek to introduce Norwegian-style gender quotas for appointments to public bodies. We are currently exploring options, including assessing the legal scope for action with officials.

Y Prif Weinidog: Byddwch yn gwybod, yn y manifestio y cawsom ein hethol arno, ein bod wedi dweud y byddem yn ceisio cyflwyno cwtotâu rhyw yn yr arddull Norwyaidd ar gyfer penodiadau i gyrrff cyhoeddus. Ar hyn o bryd rydym yn archwilio opsiynau, gan gynnwys asesu'r cwmpas cyfreithiol ar gyfer gweithredu gyda swyddogion.

Mohammad Asghar: First Minister, it is very concerning that the number of disability hate crimes increased in all four police force areas during 2010-11. Welsh Government policy can play a key role in working to reduce levels of disability hate crime, from awareness-raising in educational settings to offering support and guidance to community-based agencies. The Equality and Human Rights Commission has suggested that, in Wales, specific equality duties could include objectives to tackle disability harassment. First Minister, how do you envisage future policy making will take this issue into consideration to ensure that this problem is a top equality priority in Wales during the fourth Assembly? Given concerns about a lack of awareness of the problem of disability hate crimes, what is your Government doing to ensure that the scale of the problem is adequately recognised?

Mohammad Asghar: Brif Weinidog, mae'n destun pryder mawr bod nifer y troseddau casineb anabledd wedi cynyddu yn y pedair ardal heddlu yn ystod 2010-11. Gall polisi Llywodraeth Cymru chwarae rhan allweddol wrth weithio i leihau lefelau o droseddau casineb anabledd, o godi ymwybyddiaeth mewn lleoliadau addysgol i gynnig cymorth ac arweiniad i asiantaethau yn y gymuned. Mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol wedi awgrymu y gallai dyletswyddau cydraddoldeb penodol yng Nghymru gynnwys amcanion i fynd i'r afael ag aflonyddu ar sail anabledd. Brif Weinidog, sut ydych yn rhagweld y bydd llunio polisiâu yn y dyfodol yn cymryd y mater hwn i ystyriaeth er mwyn sicrhau bod y broblem hon yn un o'r prif flaenoriaethau cydraddoldeb yng Nghymru yn ystod y pedwerydd Cynulliad? O ystyried pryderon am ddiffyg ymwybyddiaeth o'r broblem troseddau casineb anabledd, beth mae eich Llywodraeth yn ei wneud i sicrhau bod maint y broblem yn cael ei gydnabod yn ddigonol?

The First Minister: I know that this has been brought to the public's attention by one of my constituents—someone I know very well and who has experienced disability hate crimes. It is difficult to conceive of someone expressing such views, but the reality is that there are people who have experienced having that sort of hatred directed at them. We will look to work with all relevant authorities to ensure, first, that disability hate crime is recognised and, secondly, that the attitudes behind it are dealt with.

Y Prif Weinidog: Gwn fod hyn wedi cael ei ddwyn i sylw'r cyhoedd gan un o fy etholwyr—rhywun rwy'n adnabod yn dda iawn ac sydd wedi profi troseddau casineb anabledd. Mae'n anodd amgyffred rhywun yn mynegi barn o'r fath, ond y gwir amdani yw bod yna bobl sydd wedi dioddef cael y math yna o gasineb wedi'i anelu atynt. Byddwn yn edrych i weithio gyda'r holl awdurdodau perthnasol i sicrhau, yn gyntaf, bod troseddau casineb anabledd yn cael eu cydnabod ac, yn ail, yr ymdrinnir â'r agweddau y tu ôl iddynt.

Gwylwyr y Glannau Abertawe

Swansea Coastguard Station

5. Julie James: *A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u*

5. Julie James: *Will the First Minister provide an update with regard to representations the Welsh Government has*

rhoi i Lywodraeth y DU ynghylch cau gorsaf Gwylwyr y Glannau Abertawe. OAQ(4)0117(FM)

made to the UK Government over the closure of the Swansea Coastguard station. OAQ(4)0117(FM)

10. Bethan Jenkins: *Pa sylwadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u rhoi i Lywodraeth y DU ynghylch y cynnig i gau Canolfan Gwylwyr y Glannau Abertawe. OAQ(4)0111(FM)*

10. Bethan Jenkins: *What representations has the Welsh Government made to the UK Government over the proposed closure of the Swansea Coastguard Centre. OAQ(4)0111(FM)*

The First Minister: We are currently drafting a response to the revised consultation on the modernisation, as it is described, of the coastguard. The response will put forward the Welsh Government's position, opposing the closure of all three maritime and rescue co-ordination centres in Wales.

Y Prif Weinidog: Yr ydym ar hyn o bryd yn drafftio ymateb i'r ymgynghoriad diwygiedig ar foderneiddio gwylwyr y glannau, fel y mae'n cael ei ddisgrifio. Bydd yr ymateb yn cyflwyno safbwynt Llywodraeth Cymru, yn gwrthwynebu cau'r dair canolfan cydlynu morwrol ac achub yng Nghymru.

Julie James: As I am sure you know, my constituency in Swansea West has a significant stake in the safety of the waters of Swansea bay. The coastline is a busy tourist spot as well as a shipping lane providing passage to a busy port. I would like to put on record my strong opposition to the closure of the UK's second busiest coastguard station and ask you, First Minister, to consider using the Welsh Government's levers with the ports in Wales to issue a response to the UK consultation with regard to the safety of Welsh ports covered by the coastguard station in Swansea as well.

Julie James: Fel yr wyf yn siŵr eich bod yn gwybod, mae gan fy etholaeth yng Ngorllewin Abertawe ddiddordeb sylweddol yn niogelwch dyfroedd bae Abertawe. Mae'r arfordir yn fan twristiaeth prysur yn ogystal â lôn llongau sy'n darparu mynediad i borthladd prysur. Hoffwn gofnodi fy ngwrthwynebiad cryf i gau yr ail orsaf gwylwyr y glannau brysuraf yn y DU a gofyn i chi, Brif Weinidog, i ystyried defnyddio liferi Llywodraeth Cymru gyda'r porthladdoedd yng Nghymru i gyhoeddi ymateb i ymgynghoriad y DU o ran diogelwch porthladdoedd Cymru a gwmpesir gan orsaf gwylwyr y glannau yn Abertawe yn ogystal.

The First Minister: Yes, I have met with those connected with the campaign to save the Swansea coastguard station. It came as a shock to them, of course, because this is a sudden u-turn by the UK Government. If they make a further u-turn saving the maritime centres, I will, of course, welcome that.

Y Prif Weinidog: Yr wyf wedi cyfarfod â'r rhai sy'n gysylltiedig â'r ymgyrch i achub gorsaf gwylwyr y glannau Abertawe. Daeth yn sioc iddynt, wrth gwrs, oherwydd mae hwn yn dro pedol sydyn gan Lywodraeth y DU. Os ydynt yn gwneud tro pedol pellach yn arbed y canolfannau morwrol, byddaf, wrth gwrs, yn croesawu hynny.

Bethan Jenkins: I wonder whether the First Minister heard that, following the shipping Minister's recent visit to the Swansea station, the fact that operations were temporarily transferred to Milford while the meeting was going on was later used by Mr Penning as an argument during the debate in Westminster, when he said that he had seen for himself that Milford could effectively operate without Swansea, effectively justifying the arguments for closing Swansea. Does the First Minister

Bethan Jenkins: Tybed a glywodd y Prif Weinidog, yn dilyn ymweliad diweddar y Gweinidog llongau â gorsaf Abertawe, y cafodd y ffaith fod gweithrediadau wedi eu trosglwyddo dros dro i Milffwrdd tra bod y cyfarfod yn digwydd ei ddefnyddio yn ddiweddarach gan Mr Penning fel dadl yn ystod y ddadl yn San Steffan, pan ddywedodd ei fod wedi gweld drosto'i hun y gallai Aberdaugleddau weithredu'n effeithiol heb Abertaweac felly gyfiawnhau'r dadleuon o

share my anger at this poor attempt to win the argument and does he condemn using a visit to consult with politicians and those who work at the station in this cynical way? Will he robustly make the case to the UK Government that what Mr Penning is claiming is most definitely not the case?

2.45 p.m.

The First Minister: You cannot take a snapshot and use it as full evidence of why something should happen. That is what seems to have happened here. We know that our coastguard stations are vital to ensuring the safety of so many people around our coastlines. No case has been made to close any of them and our response will make that perfectly clear.

Byron Davies: Will you join me in paying tribute to the Swansea coastguard personnel and the local campaign group, who are running a first-class campaign to prevent the closure? I was extremely grateful to meet the Parliamentary Under-Secretary of State for Transport, Mike Penning MP, together with my colleague Suzy Davies, in Swansea and make our case strongly for the retention of the Swansea coastguard. It was interesting to hear the background to the consultation and the lack of action by the previous Government on creating a suitable level of national resilience in the coastguard. What discussions have you held with the current Government—or any previous Government—about creating a national resilience for dealing with major crises in the waters around Wales?

The First Minister: The current UK Government has been in place for some time and to try to suggest that its plans to close coastguard stations are somehow controlled from the grave by the previous Government just does not wash. It just does not work that way. The UK Government must take responsibility for the decisions that it proposes. It must take responsibility for getting rid of the winter fuel allowances, despite promises by the Prime Minister to the

blaid cau Abertawe. A yw'r Prif Weinidog yn rhannu fy nicter at yr ymgais wael hon i ennill y ddadl ac a yw'n condemnio defnyddio ymweliad i ymgynghori â gwleidyddion a'r rhai sy'n gweithio yn yr orsaf yn y ffordd sinigaidd hon? A wnaiff yr achos yn gadarn i Lywodraeth y DU nad yw'r hyn y mae Mr Penning yn ei honni yn wir o bell ffordd?

Y Prif Weinidog: Ni allwch gymryd cipolwg a'i ddefnyddio fel tystiolaeth lawn o pam y dylai rhywbeth ddigwydd. Dyna sy'n edrych fel ei fod wedi digwydd yma. Rydym yn gwybod bod ein gorsafoedd gwylwyr y glannau yn hanfodol er mwyn sicrhau diogelwch nifer o bobl o amgylch ein harfordiroedd. Nid oes achos wedi'i wneud i gau yr un ohonynt, a bydd ein hymateb yn gwneud hynny'n hollol glir.

Byron Davies: A wnewch chi ymuno â mi i dalu teyrnged i staff gwylwyr y glannau Abertawe a'r grŵp ymgyrch leol, sydd yn rhedeg ymgyrch ragorol i atal y cau? Yr oeddwn yn hynod o ddiolchgar i gwrdd â'r Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Drafnidiaeth, Mike Penning AS, gyda fy nghyd-Aelod Suzy Davies, yn Abertawe a gwneud ein hachos yn gryf i gadw gwylwyr y glannau Abertawe ar agor. Yr oedd yn ddiddorol clywed cefndir i'r ymgynghoriad a'r diffyg gweithredu gan y Llywodraeth flaenorol ar greu lefel addas o hydwythdedd cenedlaethol yng ngwasanaeth gwylwyr y glannau. Pa drafodaethau a gawsoch gyda'r Lywodraeth bresennol—neu unrhyw Lywodraeth flaenorol—am greu hydwythdedd cenedlaethol ar gyfer delio ag argyfyngau mawr yn y dyfroedd o amgylch Cymru?

Y Prif Weinidog: Bu Llywodraeth bresennol y DU yn ei lle ers peth amser ac nid yw ceisio awgrymu, rywsut, bod ei chynlluniau i gau gorsafoedd gwylwyr y glannau gan y Llywodraeth flaenorol yn cael eu rheoli o'r bedd yn tycio. Nid yw'n gweithio'r ffordd honno. Mae'n rhaid i Lywodraeth y DU gymryd cyfrifoldeb am y penderfyniadau y mae'n eu cynnig. Rhaid iddi gymryd cyfrifoldeb am gael gwared â'r lwfansau tanwydd gaeaf, er gwaethaf

contrary. It must take responsibility for cutting concessionary bus travel. It must take responsibility for the attempted decision to close coastguard stations, putting people's lives in jeopardy. That decision will be taken by this UK Government, not by the previous UK Government. They won the election; it is about time that they took responsibility.

Mike Hedges: As the Member who represents the port of Swansea, I join other colleagues in expressing my concern about the proposed closure of the coastguard station in Swansea. Our opposition is based solely on safety grounds. When you send your response, will you make it clear that the opposition comes from the whole of Swansea, not just those parts that are covered by the coastguard station, and that safety is the cause for our concern?

The First Minister: The opposition comes from the whole of Wales. On this side of the Chamber we are wholly opposed to closing any coastguard stations, and certainly I do not want to see one coastguard station played off against another, which is the impression that is given by the consultation. We all want to see safe passage of ships through Welsh waters and it is important that there is adequate coastguard cover. That means retaining these stations.

Peter Black: First Minister, you will be aware that this is not just a Swansea issue, as the coastguard station covers the whole of the Bristol channel. A number of statutory bodies, local councils and port authorities, have a vested interest in making sure that it survives. In responding to this consultation, is the Welsh Government considering taking more of a leadership role to try to co-ordinate those bodies—the councils and port authorities and so on—to ensure that we give a combined response from the whole of south Wales on the proposed closure?

The First Minister: There will be a response from Government. We will look to work with all those who wish to make a response to the

addewidion gan y Prif Weinidog i'r gwrthwyneb. Rhaid iddi gymryd cyfrifoldeb am dorri teithio rhatach ar fysiau. Rhaid iddi gymryd cyfrifoldeb am geisio gwneud y penderfyniad i gau gorsafoedd gwylwyr y glannau, gan roi bywydau pobl mewn perygl. Caiff y penderfyniad hwnnw ei gymryd gan Lywodraeth y DU, nid gan Lywodraeth flaenorol y DU. Maent wedi ennill yr etholiad; mae'n bryd iddynt gymryd cyfrifoldeb.

Mike Hedges: Fel yr Aelod sy'n cynrychioli porthladd Abertawe, ymunaf â chydweithwyr eraill yn mynegi fy mhryder ynghylch y bwriad i gau gorsaf gwylwyr y glannau yn Abertawe. Mae ein gwrthwynebiad yn seiliedig ar sail diogelwch yn unig. Pan rydych yn anfon eich ymateb, a wnewch yn glir y daw'r gwrthwynebiad o Abertawe i gyd, nid dim ond y rhannau hynny a gwmpesir gan orsaf gwylwyr y glannau, ac mai diogelwch yw'r achos am ein pryder?

Y Prif Weinidog: Mae'r gwrthwynebiad yn dod o Gymru gyfan. Ar yr ochr hon i'r Siambr rydym yn gwrthwynebu'n gyfan gwbl gau unrhyw orsaf gwylwyr y glannau, ac yn sicr nid wyf am weld un orsaf gwylwyr y glannau yn cael ei chwarae yn erbyn y llall, sef yr argraff a roddwyd gan yr ymgynghoriad. Yr ydym oll am weld llongau yn tramwyo'n ddiogel trwy ddyfroedd Cymru ac mae'n bwysig y ceir cefnogaeth ddigonol gan wylwyr y glannau. Mae hynny'n golygu cadw'r gorsafoedd hyn ar agor.

Peter Black: Brif Weinidog, byddwch yn ymwybodol nad yw hwn yn fater Abertawe yn unig, gan fod yr orsaf gwylwyr y glannau yn ymdrin â môr Hafren i gyd. Mae gan nifer o gyrff statudol, cynghorau lleol ac awdurdodau porthladdoedd ddiddordeb personol mewn gwneud yn siŵr ei fod yn goroesi. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad hwn, a yw Llywodraeth Cymru'n ystyried cymryd mwy o arweiniad i geisio cydlynu'r cyrff hynny—y cynghorau a'r awdurdodau porthladdoedd ac ati—i sicrhau ein bod yn rhoi ymateb cyfunol gan dde Cymru gyfan ar y bwriad i gau?

Y Prif Weinidog: Bydd ymateb gan y Llywodraeth. Byddwn yn edrych i weithio gyda phawb sydd yn dymuno ymateb i'r

consultation to ensure that the response is, if not uniform, then not contradictory. One issue that I discussed with the campaigners at the Swansea coastguard station was ensuring that they worked with campaigners from the other coastguard stations so that an all-Wales response could be provided.

Plant sy'n cael Gofal

6. Kenneth Skates: *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella bywydau plant sy'n cael gofal yng Nghymru. OAQ(4)0115(FM)*

The First Minister: We have a manifesto commitment to introduce a national looked-after children's service to ensure that an adequate placement choice is made available to young people who have to live away from home. That service will operate to common standards that will be set out in legislation.

Kenneth Skates: First Minister, figures released at the end of last week highlighted that the number of looked-after children in Wales has increased by 5 per cent in the last year, and by 20 per cent in the last five years. Employment and education take-up is rising—we should be thankful for that—but life chances for children in care still lag significantly behind those of their peers who are not in care. Therefore, do you agree that we need to examine the assistance on offer to looked-after children after the age of 18 to ensure that more comprehensive packages of support can help to make them more successful and more independent in life?

The First Minister: The paper 'Sustainable Social Services in Wales: A Framework for Action' sets out our plans to improve the lives of looked-after children. They include programmes to support families through integrated family support services, and the Families First programme aims to ensure that there is a range of preventative services and rehabilitation services available. There will also be a compliance unit to ensure that these arrangements are robust.

ymgyngoriad er mwyn sicrhau bod yr ymateb, os nad yn unffurf, o leiaf ddim yn gwrthddech ei hun. Un mater y gwnes i drafod gyda'r ymgyrchwyr yng ngorsaf gwylwyr y glannau Abertawe oedd sicrhau eu bod yn gweithio gyda'r ymgyrchwyr o orsafoedd gwylwyr y glannau eraill fel y gellid darparu ymateb Cymru gyfan.

Looked-after Children

6. Kenneth Skates: *Will the First Minister outline the Welsh Government's plans to improve the lives of looked-after children in Wales. OAQ(4)0115(FM)*

Y Prif Weinidog: Mae gennym ymrwymiad maniffesto i gyflwyno gwasanaeth cenedlaethol plant sy'n cael gofal i sicrhau bod dewis addas o ran lleoliad ar gael i bobl ifanc sy'n gorfod byw oddi cartref. Bydd y gwasanaeth hwnnw'n gweithredu i safonau cyffredin a gaiff eu gosod mewn deddfwriaeth.

Kenneth Skates: Brif Weinidog, fe wnaeth ffigurau a ryddhawyd ddiwedd yr wythnos diwethaf amlygu bod nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi cynyddu 5 y cant yn y flwyddyn ddiwethaf, ac 20 y cant yn y pum mlynedd diwethaf. Mae'r nifer sydd mewn cyflogaeth ac addysg yn codi—dylem fod yn ddiolchgar am hynny—ond mae cyfleoedd bywyd i blant mewn gofal yn dal i fod y tu ôl yn sylweddol i'w cyfoedion nad ydynt mewn gofal. Felly, a ydych yn cytuno bod angen inni archwilio'r cymorth sydd ar gael i blant sy'n derbyn gofal ar ôl 18 oed i sicrhau bod pecynnau cymorth mwy cynhwysfawr yn gallu helpu i'w gwneud yn fwy llwyddiannus ac yn fwy annibynnol mewn bywyd?

Y Prif Weinidog: Mae'r papur 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu' yn nodi ein cynlluniau i wella bywydau plant sy'n derbyn gofal. Maent yn cynnwys rhaglenni i gefnogi teuluoedd drwy'r gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd, ac mae'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yn anelu at sicrhau y ceir amrywiaeth o wasanaethau ataliol a gwasanaethau adsefydlu. Hefyd, bydd uned cydymffurfio i sicrhau bod y trefniadau hyn yn gadarn.

William Graham: With regard to this subject, you will know, First Minister, that the figures are even worse than described previously, as there has been a 44 per cent increase over the last decade and there are over 1,250 placements in south-east Wales alone. With regard to the attainment of those aged 19 and over, only 48 per cent are known to be in education, training or employment. Although I acknowledge that your Government has made significant efforts to alleviate this problem, can you assure us that local authorities are given the support and tools to ensure that this job is completed?

The First Minister: Through the paper and legislation, we aim to ensure that. The manifesto commitment came about because of the figures that showed that looked-after children were significantly more likely to do worse at school; indeed, there were figures that suggested that looked-after children were more likely to end up in prison than in university. That situation could not continue, and that is why we are determined, through the measures that I have outlined, to ensure that that gap closes significantly.

Gwenda Thomas: I thank Joyce Watson for that contribution and for her positive comments. I would like to pay tribute to both inspectorates—Estyn and CSSIW—for a very thorough inspection. I assure the Chamber that anything that was picked up during this inspection was dealt with immediately. I reiterate what I have often said here: the protection and safeguarding of children is paramount. The role of independent advocacy is very important, and I believe that I will soon be able to issue an update on that. On whistleblowing, the reports tell us time and again that it is important, and that people who are prepared to do it must be listened to.

The other points that you make relate to corporate governance, I believe, and the Wales Audit Office inspection will, I am sure, make clear how effective that is in Pembrokeshire.

cwestiwn cyn bo hir?

Joyce Watson: Ydw. Yr hyn yr hoffwn i, o gofio bod y plant hyn wedi'u siomi ac nad oes ganddynt lais, yw i'r Dirprwy Weinidog ystyried eiriolaeth plant annibynnol fel ffordd ymlaen. Mae'n amlwg, pan nad yw system yn gweithio ar ran plentyn neu'r bobl dan sylw, mai eiriolaeth annibynnol yw un ffordd bosibl ymlaen. Hoffwn hefyd pe bai'r Dirprwy Weinidog yn ystyried edrych ar y mecanweithiau chwythu'r chwiban ar gyfer staff rheng flaen, fel eu bod yn teimlo bod llais ganddynt hwythau hefyd.

Mae Deddf Plant 2004 a chanllawiau rheoleiddiol yn glir ynghylch cyfarfodydd strategaeth amddiffyn plant, na wnaeth ddigwydd yn yr achos hwn. Hefyd, daeth yn glir yn ystod yr ymchwiliad hwn fod y cawlach wedi dod yn rhywbeth mwy sinistr: nid oedd yn achos o beidio â chaniatáu'r gwir i ddod allan, ond o uwch-swyddogion yn anwybyddu pryderon difrifol iawn. Hoffwn felly i'r Dirprwy Weinidog ystyried sicrhau bod yna gatalog cyffredin o wybodaeth rhwng cynghorwyr a swyddogion ac na chaniateir i unrhyw gyngor yn y dyfodol gael cyfarfodydd ei fwrdd uwch reoli heb fod yna agenda, heb sôn am gofnodion.

Gwenda Thomas: Diolch i Joyce Watson am y cyfraniad hwnnw ac am ei sylwadau cadarnhaol. Hoffwn dalu teyrnged i'r ddwy arolygiaeth—Estyn ac AGGCC—am arolygiad trylwyr iawn. Gallaf sicrhau'r Siambr y deliwyd ag unrhyw beth a gododd yn ystod yr arolygiad hwn ar unwaith. Ailadroddaf yr hyn rwyf yn aml wedi ddweud yma: mae amddiffyn a diogelu plant yn hollbwysig. Mae rôl eiriolaeth annibynnol yn bwysig iawn, a chredaf y gallaf gyhoeddi diweddariad ar hynny yn fuan. Ar chwythu'r chwiban, dywed yr adroddiadau wrthym dro ar ôl tro ei fod yn bwysig, a bod rhaid gwrandao ar y bobl sy'n barod i wneud hynny.

Mae'r pwyntiau eraill rydych yn ei wneud yn ymwneud â llywodraethu corfforaethol, rwy'n credu, a bydd arolygiad Swyddfa Archwilio Cymru, rwy'n siŵr, yn ei gwneud yn glir pa mor effeithiol yw hynny yn sir Benfro.

Lindsay Whittle: Thank you, Deputy Minister, for the briefing this morning. It was extremely helpful. As someone who has 36 years' experience in local government, I am, to say the least, disappointed in the lack of political oversight and the weakness of the way in which certain elected members discharge their responsibilities. I am staggered that council officers, up to the most senior levels, failed to engage with or support members properly. If I were leader of that council, they would not be there long.

For our part, Deputy Minister, we welcome your actions, and agree that it was indeed vital that you appointed a chair of the advisory board with a legal background. That is essential to ensure that proper procedures are carried out in monitoring the progress made by the council in ensuring that incidents such as this do not happen again. It is more than highly regrettable that Criminal Records Bureau checks were not carried out on 100 per cent of school staff. I know of councils that carry out CRB checks on members of their authorities every three years.

This cannot be allowed to happen in Wales again. Deputy Minister, I reiterate the call for you to explain how this can be monitored. It is important to focus on the needs of the victims and their families in providing appropriate and ongoing support, and, as you mentioned in your report, it is also important that the children's voices are not just heard, but listened to and acted upon. My party seeks your assurance on this and will also be seeking your assurance as to how this will be monitored. Let the message go out loud and clear from this Chamber: we do not just want rhetoric on this issue; we want the appropriate action to be taken at every level. We will need tangible evidence from Pembrokeshire County Council and that board that the mechanisms will be set up quickly to ensure that, in future in Pembrokeshire, children will be listened to. The safety and protection of children transcends politics; there are no cheap shots to fire here. This parliament must be united, as indeed it is, on this issue of child protection and safety. I thank you, Deputy Minister, for your courtesy.

Lindsay Whittle: Diolch, Ddirprwy Weinidog, am y sesiwn briffio bore yma. Yr oedd yn hynod o ddefnyddiol. Fel rhywun sydd â 36 mlynedd o brofiad mewn llywodraeth leol, yr wyf yn siomedig, a dweud y lleiaf, gyda'r diffyg goruchwyliaeth wleidyddol a'r gwendid yn y ffordd y mae rhai aelodau etholedig yn cyflawni eu cyfrifoldebau. Yr wyf yn synnu'n fawr fod swyddogion y cyngor, hyd at y lefelau uchaf, wedi methu ag ymgysylltu ag aelodau na'u cefnogi'n briodol. Pe bawn yn arweinydd ar y cyngor hwnnw, ni fyddent yno'n hir.

O'n rhan ni, Ddirprwy Weinidog, croesawn eich camau, a chytunwn ei bod yn wir yn hanfodol eich bod yn penodi cadeirydd i'r bwrdd ymgynghorol sydd â chefnidir cyfreithiol. Mae hynny'n hanfodol i sicrhau bod gweithdrefnau priodol yn cael eu cynnal wrth fonitro'r cynnydd a wnaed gan y cyngor i sicrhau nad yw pethau fel hyn yn digwydd eto. Mae'n wirioneddol anffodus na gynhaliwyd gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol ar 100 y cant o staff ysgol. Rwy'n ymwybodol o gynghorau sy'n cynnal gwiriadau Swyddfa Cofnodion Troseddol ar aelodau o'u hawdurdodau bob tair blynedd.

Ni ellir caniatáu i hyn ddigwydd yng Nghymru eto. Ddirprwy Weinidog, galwaf eto arnoch i egluro sut y gellir monitro hyn. Mae'n bwysig canolbwyntio ar anghenion y dioddefwyr a'u teuluoedd i ddarparu cymorth priodol a pharhaus, ac, fel y soniwyd gennych yn eich adroddiad, mae hefyd yn bwysig nid yn unig bod lleisiau'r plant yn cael eu clywed, ond y gwrandewir ac y gweithredir arnynt. Mae fy mhlaid yn ceisio eich sicrwydd ar hyn a bydd hefyd yn gofyn am eich sicrwydd o ran sut y caiff hyn ei fonitro. Gadewch i'r neges ddod yn groyw o'r Siambr hon: nid dim ond rhethreg rydym am ei weld ar y mater hwn; yr ydym am i'r camau priodol gael eu cymryd ar bob lefel. Bydd arnom angen tystiolaeth bendant o gan Gyngor Sir Penfro a'r bwrdd hwnnw y bydd y mecanweithiau'n cael eu sefydlu yn gyflym i sicrhau, yn y dyfodol, yn sir Benfro, y gwrandewir ar blant. Mae diogelwch ac amddiffyn plant yn mynd tu hwnt i wleidyddiaeth; nid oes pwyntiau i'w sgorio fan hyn. Mae'n rhaid i'r senedd hon fod yn unedig, fel, yn wir, y mae, ar y mater hwn o amddiffyn a diogelu plant. Diolch, Ddirprwy

Weinidog, am eich cwrteisi.

Gwenda Thomas: I thank the Member for those comments and for attending the briefing earlier today. I take your point about having a chair with a legal background. A board of that nature, answerable to Ministers, has worked well in Swansea, for example, and so it is a good way forward. I also take your point on CRB checks. You will know that we are awaiting the decision of the Westminster Government on the new system to be put in place. I think that it will bring some improvements. For example, as I understand it, people will be able to take a CRB check with them from one job to another, if that CRB check is recent and acceptable.

The leader of Pembrokeshire County Council assured me this morning that he is keen to cooperate and that he welcomes the establishment of this board and will cooperate with it. I am glad of that attitude from the leader. It is important that we realise that the welfare and the safeguarding of children must come first and I now look forward to the establishment of that board and to the development of a reporting and monitoring process from that board to us as Ministers in the Welsh Government.

William Powell: I also pay tribute to the Deputy Minister for the openness with which she has approached this issue and for timetabling the briefing this morning. This mirrors the way in which the Minister for Education and Skills handled the matter back in August when we looked at other aspects of the report. Therefore, I would like to put that on record, on behalf of my party and myself.

This report is a damning indictment of some of the practices and failures within Pembrokeshire County Council over a number of years and it needs to be taken with utmost seriousness. Some of us were quite dismayed at the media spat that arose in the summer, when it seemed that priorities were somewhat misguided with regard to what was important here. As Lindsay Whittle has said, child protection is the key issue here. I was pleased to see that Phil Robson, with whom I have worked closely in his previous role

Gwenda Thomas: Diolch i'r Aelod am y sylwadau hynny ac am fynychu'r sesiwn briffio yn gynharach heddiw. Derbyniaf eich pwynt ynglŷn â chael cadeirydd â chefnidir cyfreithiol. Mae bwrdd o'r natur hwnnw, yn atebol i Weinidogion, wedi gweithio'n dda yn Abertawe, er enghraifft, ac felly mae'n ffordd dda ymlaen. Derbyniaf hefyd eich pwynt ar wiriadau CRB. Byddwch yn gwybod ein bod yn aros am benderfyniad Llywodraeth San Steffan ar y system newydd a gaiff ei rhoi ar waith. Credaf y bydd yn dod â rhai gwelliannau. Er enghraifft, fel y deallaf, bydd pobl yn gallu mynd â gwiriad CRB gyda hwy o un swydd i'r llall, os yw'r gwiriad CRB hwnnw'n ddiweddar ac yn dderbyniol.

Fe wnaeth arweinydd Cyngor Sir Penfro fy sicrhau y bore yma ei fod yn awyddus i gydweithredu a'i fod yn croesawu sefydlu'r bwrdd hwn ac y bydd yn cydweithredu ag ef. Yr wyf yn falch o'r agwedd honno gan yr arweinydd. Mae'n bwysig ein bod yn sylweddoli bod rhaid i les a diogelu plant ddod yn gyntaf ac edrychaf ymlaen yn awr at sefydlu'r bwrdd hwnnw ac at ddatblygu proses adrodd a monitro gan y bwrdd hwnnw i ni fel Gweinidogion yn Llywodraeth Cymru.

William Powell: Talaf deyrnged hefyd i'r Dirprwy Weinidog am y ffordd agored y mae hi wedi ymdrin â'r mater hwn ac am drefnu'r sesiwn friffio y bore yma. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffordd y gwnaeth y Gweinidog Addysg a Sgiliau drin y mater ym mis Awst pan edrychasom ar agweddau eraill ar yr adroddiad. Felly, hoffwn ddweud hynny ar goedd, ar ran fy mhlaid a minnau.

Mae'r adroddiad hwn yn gyhuddiad damniol o rai o'r arferion a'r methiannau yng Nghyngor Sir Penfro dros nifer o flynyddoedd ac mae angen ei ystyried gyda'r difrifoldeb mwyaf. Roedd rhai ohonom yn eithaf siomedig gyda'r ffrae a gododd yn y cyfryngau yn yr haf, pan ymddangosai bod blaenoriaethau wedi bod rhywfaint yn gyfeiliornus o ran beth oedd yn bwysig yn hyn o beth. Fel y dywedodd Lindsay Whittle, diogelu plant yw'r peth pwysig yma. Yr oeddwn yn falch o weld bod Phil Robson, y

within Mid and West Wales, has had his part to play in taking things forward. I also welcome the proposed appointment of someone with a background in legal affairs to bring the appropriate level of scrutiny to these matters. The announcement regarding the Auditor General for Wales's proposed move on corporate governance issues was also good news, because many of these failures would not have come about if we had had the appropriate culture and the appropriate attention given to these matters. As Joyce Watson, who has more experience of this authority than I have, said, there are issues relating to accountability and follow-up that needed to be considered.

I have two questions that I would like to ask. First, does the Minister consider that there is scope for the children's commissioner to have a role in the wider issues in this case? Secondly, what could the role of the Welsh Local Government Association be in safeguarding some of the lessons that need to be learned for the benefit of authorities throughout Wales? As I have said, the response is proportionate. There is always the opportunity to go back if we do not see consistent improvement. It is encouraging that there appears to be a change of emphasis in the authority. However, we also need to be aware that we are moving into the sunset phase of this council, and that is why it is important that there is stability in delivering improvement for the young people in Pembrokeshire and, indeed, the rest of Wales.

Gwenda Thomas: I thank William Powell for those comments and for attending the briefing. We have received the report of the ministerial advisory board, which shows that there has been improvement in Pembrokeshire as well as a change of attitude. I take your point about the scrutiny that will be undertaken by the new ministerial board, but I would stress that the independence of the chair will be the key to success in the future. The children's commissioner has visited Pembrokeshire. I am always ready and willing to listen to any advice from Keith Towler, whose role has been to raise the voices of the children, and his independence from us is important. I am

bûm yn gweithio'n agos gydag ef yn ei rôl flaenorol o fewn Canolbarth a Gorllewin Cymru, wedi chwarae rhan yn bwrw pethau yn eu blaen. Croesawaf hefyd y penodiad arfaethedig o rywun â chefnidir mewn materion cyfreithiol i ddod â'r lefel briodol o graffu i'r materion hyn. Roedd y cyhoeddiad ynglŷn â symud arfaethedig Archwilydd Cyffredinol Cymru ar faterion llywodraethu corfforaethol hefyd yn newyddion da, oherwydd ni fyddai llawer o'r methiannau hyn wedi codi pe bai gennym y diwylliant priodol ac wedi rhoi'r sylw priodol i'r materion hyn. Fel y dywedodd Joyce Watson, sydd â mwy o brofiad o'r awdurdod hwn na fi, mae materion sy'n ymwneud ag atebolrwydd a dilyniant y mae angen eu hystyried.

Mae gennyf ddau gwestiwn yr hoffwn eu gofyn. Yn gyntaf, a yw'r Gweinidog yn ystyried bod sgôp i'r comisiynydd plant chwarae rhan yn y materion ehangach yn yr achos hwn? Yn ail, beth allai rôl Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod o ran sicrhau bod rhai o'r gwersi sydd angen eu dysgu er budd awdurdodau ledled Cymru yn cael eu dysgu? Fel y dywedais, mae'r ymateb yn gymesur. Mae wastad cyfle i fynd yn ôl os nad ydym yn gweld gwelliant cyson. Mae'n galonogol bod newid pwyslais yn yr awdurdod, i bob golwg. Fodd bynnag, mae angen hefyd i ni fod yn ymwybodol ein bod yn symud i gyfnod machlud y cyngor hwn, a dyna pam ei bod yn bwysig fod sefydlogrwydd wrth sicrhau gwelliant i bobl ifanc yn sir Benfro, ac, yn wir, yng ngweddill Cymru.

Gwenda Thomas: Diolch i William Powell am y sylwadau hynny ac am fynychu'r sesiwn friffio. Rydym wedi derbyn adroddiad y bwrdd cynghori gweinidogol, sy'n dangos y bu gwelliant yn sir Benfro yn ogystal â newid agwedd. Derbyniaf eich pwynt am y craffu a gaiff ei gynnal gan y bwrdd gweinidogol newydd, ond byddwn yn pwysleisio mai annibyniaeth y cadeirydd fydd yr allwedd i lwyddiant yn y dyfodol. Mae'r comisiynydd plant wedi ymweld â sir Benfro. Yr wyf wastad yn barod i wrando ar unrhyw gyngor gan Keith Towler, gan mai ei rôl yw codi lleisiau plant, ac mae ei annibyniaeth oddi arnom yn bwysig. Yr wyf yn siŵr y bydd yn cadw llygad ar yr hyn sy'n

sure that he will be keeping a keen eye on what happens in Pembrokeshire.

I should have mentioned in my response to Darren Millar how we can be as sure as we can be that things are right in other authorities, which he asked about, and I can couple my response on that with my response to your point, William, on the WLGA. The Minister for education and I have written to all authorities in Wales to ask them to assure us that they are enforcing policies and that everything is well. The policies are there; this is not a policy issue, but a system issue. They have until Friday 23 September to respond to us, and I am sure that we will consider sharing the authorities' response and being as open as we can be about that. The stability and continuity of improvement will be very important indeed. We are coming to a point in local authorities' political calendar when we will need to ensure that improvement continues into the next council.

The Presiding Officer: We have heard the spokespeople from every party, so I would appreciate it if the remaining speakers could make their preambles very short before coming to their questions.

Angela Burns: I thank the Deputy Minister for Children and Social Services and the Minister for Education and Skills for their briefings over the past few months. As one of the constituency Assembly Members for Pembrokeshire, I have appreciated that. You are absolutely right that there is nothing more important than looking after children. Every speaker today has reiterated that. I read the report and was incandescent with rage. I read it first as a mother whose children have been to schools in Pembrokeshire. I then read it as an Assembly Member, and I thought of my friends and their children. There is no doubt that the county council made serious mistakes. I am delighted to see the draft safeguarding proposals that it has made, and I am also delighted, Deputy Minister, that you have taken that on and that you intend to keep a ministerial advisory board there and to have a person with a legal background in charge to ensure that all of this happens.

digwydd yn sir Benfro.

Fe ddylwn i fod wedi crybwyll yn fy ymateb i Darren Millar sut y gallwn fod mor sicr ag y gallwn fod bod pethau'n iawn mewn awdurdodau eraill, sef yr hyn y gwnaeth ofyn amdano, a gallaf gyplysu fy ymateb ar hynny â'm hymateb i'ch pwynt chi, William, ar CLILC. Mae'r Gweinidog dros addysg a minnau wedi ysgrifennu at bob awdurdod yng Nghymru i ofyn iddynt roi sicrwydd i ni eu bod yn gorfodi polisiau a bod popeth yn iawn. Mae'r polisiau yno; nid yw hyn yn fater polisi, ond yn fater system. Mae ganddyn nhw tan ddydd Gwener 23 Medi i ymateb i ni, ac yr wyf yn siŵr y byddwn yn ystyried rhannu ymatebion yr awdurdodau a bod mor agored ag y gallwn fod am hynny. Bydd y sefydlogrwydd a pharhad y gwelliant yn bwysig iawn. Yr ydym yn dod at bwynt yng nghalendr gwleidyddol awdurdodau lleol pan fydd arnom angen sicrhau bod gwelliannau yn parhau yn y cyngor nesaf.

Y Llywydd: Rydym wedi clywed llefarwyr o bob plaid, felly byddwn yn gwerthfawrogi pe gallai'r siaradwyr sy'n weddill wneud rhagymadroddion byr iawn cyn dod i'w cwestiynau.

Angela Burns: Diolch i'r Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau am eu sesiynau briffio dros y misoedd diwethaf. Fel un o'r Aelodau Cynulliad ar gyfer etholaeth sir Benfro, rwyf wedi gwerthfawrogi hynny. Yr ydych yn llygad eich lle nad oes dim byd yn bwysicach nac edrych ar ôl plant. Mae pob siaradwr heddiw wedi ailadrodd hynny. Darllenais yr adroddiad ac roeddwn yn gynddeiriog. Fe'i darllenais ef yn gyntaf fel mam â phlant sydd wedi mynychu ysgolion yn sir Benfro. Yna, fe'i darllenais fel Aelod Cynulliad, a meddyliais am fy ffrindiau a'u plant. Nid oes amheuaeth bod y cyngor sir wedi gwneud camgymeriadau difrifol. Yr wyf yn falch iawn o weld y cynigion diogelu drafft y mae wedi eu gwneud, ac yr wyf hefyd yn falch iawn, Ddirprwy Weinidog, eich bod wedi mynd i'r afael â hynny ac yn bwriadu cadw bwrdd cynghori gweinidogol yno a chael unigolyn â chefnid yn y gyfraith wrth y llyw i sicrhau bod hyn oll yn digwydd.

All of this is well and good, but I have to make a point that is difficult to make, because safeguarding children is an emotive issue. The A477 and A40 going into Pembrokeshire do not just stop; there is two-way traffic. I do not believe that Pembrokeshire can possibly have been working in isolation, doing this on its own for all of these weeks and months. *[Interruption.]* Sorry, is that me?

4.00 p.m.

The Presiding Officer: Order. If it is your telephone, you face a £5 fine. *[Laughter.]*

Angela Burns: I do not think that it is mine.

The Presiding Officer: Could people check that their mobile phones are switched off, please, because something is interfering with the system.

Angela Burns: My concern, Deputy Minister, is that, for the last three or four years, Pembrokeshire County Council has received some glowing reports from agencies that we commission to ensure that county councils are kept on their toes. A Care and Social Services Inspectorate Wales report in October 2009 told the council that its processes were great. An Estyn report in 2008 said that everything was rosy in the garden. I have tried to meet all those involved to understand what has changed. For example, I have met Ann Keane of Estyn to try to understand the difference between the Estyn reports of then and now. I am working my way through it. However, it causes me great concern that the Wales Audit Office gave it an excellent corporate governance report less than a year ago. Therefore, I have two questions to ask of you, Minister. First, where have all of the other agencies been; why did they give Pembrokeshire County Council such outstanding support and why did they tell it that it was a premier council that was doing extremely well, because it has failed in its duty? By not telling Pembrokeshire County Council what it has done wrong, we have not been able to give it the correct guidance to ensure that it is doing a good job.

Mae hyn oll yn iawn, ond rhaid imi wneud pwynt sy'n anodd ei wneud, gan fod diogelu plant yn fater emosiynol. Nid yw'r A477 a'r A40 sy'n mynd i mewn i sir Benfro yn stopio; mae yna draffig ddwyffordd. Nid wyf yn credu y bu sir Benfro yn gweithio ar wahân, gan wneud hyn ar ei ben ei hun am yr holl wythnosau a misoedd hyn. *[Torri ar draws.]* Mae'n ddrwg gen i, ai fi yw hwnna?

Y Llywydd: Trefn. Os mai eich ffôn chi yw hwnnw, byddwch yn wynebu dirwy o £5. *[Chwerthin.]*

Angela Burns: Nid wyf yn credu mai fy un i yw e.

Y Llywydd: A all pobl sicrhau bod eu ffonau symudol wedi cael eu diffodd, os gwelwch yn dda, gan fod rhywbeth yn amharu ar y system.

Angela Burns: Fy mhryder, Ddirprwy Weinidog, yw bod Cyngor Sir Penfro, dros y dair neu bedair blynedd diwethaf, wedi derbyn ambell i adroddiad disglair gan asiantaethau yr ydym yn eu comisiynu i sicrhau bod cynghorau sir yn cael eu cadw ar flaenau eu traed. Dywedodd adroddiad Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Hydref 2009 wrth y cyngor bod ei brosesau yn wych. Dywedodd adroddiad Estyn yn 2008 fod popeth yn fêl i gyd. Rwyf wedi ceisio cwrdd â phawb sy'n gysylltiedig i ddeall beth sydd wedi newid. Er enghraifft, yr wyf wedi cyfarfod ag Ann Keane o Estyn i geisio deall y gwahaniaeth rhwng adroddiadau Estyn ddoe a heddiw. Yr wyf yn gweithio fy ffordd drwyddo. Fodd bynnag, mae'n destun pryder mawr i mi bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi rhoi adroddiad llywodraethu corfforaethol ardderchog iddo lai na blwyddyn yn ôl. Felly, mae gennyf ddau gwestiwn i'w gofyn i chi, Weinidog. Yn gyntaf, ble mae pob un o'r asiantaethau eraill wedi bod; pam y gwnaethant roi cymorth mor rhagorol i Gyngor Sir Penfro a pham wnaethon nhw ddweud wrtho ei fod yn gyngor rhagorol a oedd yn gwneud yn dda iawn, gan ei fod wedi methu yn ei ddyletswydd? Drwy beidio â dweud wrth

Gyngor Sir Penfro beth a wnaeth o'i le, nid ydym wedi gallu rhoi'r arweiniad cywir iddo i sicrhau ei fod yn gwneud gwaith da.

Secondly, the Booth and Munday report on the practices in the pupil referral unit, which referred to the fact that pupils in the pupil referral unit were being restrained inappropriately, highlighted significant confusion over legislation—the guidance and legislative responses and practices of two different agencies, namely education and social services. Therefore, can the Welsh Government look at what statutory guidance may need to be put in place in future to ensure that there is no lack of clarity between the way that social services interpret guidance, policy and law and the way in which education services interpret guidance, policy and law? There are two questions there, Deputy Minister: what are we going to do legislatively, and where on earth have all of these other agencies been? They have supported Pembrokeshire and told it that it has done a very good job, but today we find that that is not the case. Those agencies need to be looked at, too.

Gwenda Thomas: I thank Angela Burns for those comments. You have made many wide-ranging points and I respect the points that you have made. There were good reports prior to matters being brought to our attention. When we became aware of those, we then launched a joint investigation by CSSIW and Estyn. The WAO report has been arranged and will be undertaken in November. When the findings of that report come to hand, I am sure that the Minister for Local Government and Communities will take them very seriously indeed and will give them due consideration and take into account the cross-portfolio issues that might arise from that.

With regard to your reference to the PRU, I remind you that a joint review is being undertaken by Dyfed Powys Police and Pembrokeshire County Council into the handling of the 25 cases, plus the further case that has come to our attention. We must await the findings of that investigation. We know that there is a review into joint handling,

Yn ail, mae adroddiad Booth a Munday ar yr arferion yn yr uned cyfeirio disgyblion, a oedd yn cyfeirio at y ffaith bod disgyblion yn yr uned cyfeirio disgyblion yn cael eu hatal yn amhriodol, wedi amlygu dryswch sylweddol dros deddfwriaeth—canllawiau ac ymatebion deddfwriaethol ac arferion dwy asiantaeth wahanol, sef addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Felly, a all Llywodraeth Cymru edrych ar ba ganllawiau statudol y gellid eu rhoi ar waith yn y dyfodol i sicrhau nad oes unrhyw ddiffyg eglurder rhwng y ffordd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn dehongli canllawiau, polisi a chyfraith a'r modd y mae gwasanaethau addysg yn dehongli canllawiau, polisi a chyfraith? Mae dau gwestiwn yno, Ddirprwy Weinidog: beth ydym yn mynd i'w wneud yn deddfwriaethol, a lle ar y ddaear mae pob un o'r asiantaethau eraill wedi bod? Maent wedi cefnogi sir Benfro a dweud wrtho ei fod wedi gwneud gwaith da iawn, ond heddiw rydym yn darganfod nad yw hynny'n wir. Mae angen edrych ar yr asiantaethau hynny, hefyd.

Gwenda Thomas: Diolch i Angela Burns am y sylwadau hynny. Yr ydych wedi gwneud llawer o bwyntiau eang ac yr wyf yn parhau y pwyntiau a wnaethoch. Cafwyd adroddiadau da cyn i faterion gael eu dwyn i'n sylw. Pan ddaethom yn ymwybodol o'r rheiny, gwnaethom wedyn lansio ymchwiliad ar y cyd gan AGGCC ac Estyn. Mae adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru wedi ei drefnu a bydd yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd. Pan fydd y canfyddiadau o'r adroddiad hwnnw yn dod i law, yr wyf yn sicr y bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn eu cymryd o ddifrif ac y bydd yn rhoi ystyriaeth briodol iddynt a'r materion traws-portfolio a allai ddeillio o hynny.

O ran eich cyfeiriad at yr UCD, yr wyf yn eich atgoffa bod adolygiad ar y cyd yn cael ei gynnal gan Heddlu Dyfed Powys a Chyngor Sir Penfro i'r ffordd yr ymdriniwyd â'r 25 achos, yn ogystal â'r achos pellach sydd wedi dod i'n sylw. Mae'n rhaid i ni aros am ganfyddiadau'r ymchwiliad hwnnw. Rydym yn gwybod bod adolygiad ar gyd-drafod, sy'n

which is very important. The police are very much a part of that and a review is being undertaken of the joint handling of safeguarding in Pembrokeshire. That involves CSSIW, Estyn, Her Majesty's Inspectorate of Constabulary, Healthcare Inspectorate Wales and the probation service. We need to await the findings of that review as well. As I mentioned in my opening comments, quite a lot more information will come to us about the position in Pembrokeshire. We will take all of that into account, but I believe that we need this board to help us to consider any additional information and monitor the way forward. That is why I think it is best to establish this board with the legal chair in order to get the best advice possible. Of course, this ministerial board will be answerable to us as Ministers.

Simon Thomas: I would like to thank the Deputy Minister for her statement today. I would also like to thank the Minister for education for his work on this matter. Most of the points I was going to make have been made, so I will not reiterate them. For many local people, what came out of these reports was, of course, shocking, but not surprising. It is not for nothing that the council has been known for a long time as the 'Kremlin on the Cleddau'. The lack of information, scrutiny and accountability in this authority has been a problem locally for a while now. In answer to Angela's points, perhaps the reason for this authority having decent reports in the past is that it pulled the wool over people's eyes and did not share the information properly with the agencies going in to examine its processes. This is an opportunity for the authority to change. After a rather hesitant, defensive and regrettable start, it now seems to have woken up to its responsibilities, and I welcome that.

However, there are two things that are of particular concern to me. One is that proper scrutiny is allowed within the authority between members. There have been moves to appoint new independent chairs of scrutiny committees. Nevertheless, I am concerned that all councillors—and I mean all councillors—are not being given the full

bwysig iawn. Mae'r heddlu yn rhan fawr o hynny ac mae adolygiad yn cael ei gynnal o'r cyd-drafod o ddiogelu yn sir Benfro. Mae hyn yn cynnwys AGGCC, Estyn, Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'r gwasanaeth prawf. Mae angen i ni aros am ganfyddiadau'r adolygiad hwnnw hefyd. Fel y soniais yn fy sylwadau agoriadol, bydd tipyn mwy o wybodaeth yn dod atom am y sefyllfa yn sir Benfro. Byddwn yn cymryd hynny i gyd i ystyriaeth, ond credaf fod angen y bwrdd hwn i'n helpu i ystyried unrhyw wybodaeth ychwanegol a monitro'r ffordd ymlaen. Dyna pam yr wyf yn meddwl mai'r peth gorau yw sefydlu'r bwrdd hwn gyda chadeirydd cyfreithiol er mwyn cael y cyngor gorau posibl. Wrth gwrs, bydd y bwrdd gweinidogol yn atebol i ni fel Gweinidogion.

Simon Thomas: Hoffwn ddiolch i'r Dirprwy Weinidog am ei datganiad heddiw. Hoffwn hefyd ddiolch i'r Gweinidog addysg am ei waith ar y mater hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r pwyntiau yr oeddwn yn mynd i'w gwneud wedi cael eu gwneud, felly nid wyf am eu hailadrodd. I lawer o bobl leol, roedd yr hyn a ddaeth allan o'r adroddiadau hyn yn frawychus, wrth gwrs, ond nid yn syndod. Nid am ddim reswm y mae'r cyngor wedi cael ei adnabod ers amser hir fel y 'Kremlin ar y Cleddau'. Mae'r diffyg gwybodaeth, craffu ac atebolrwydd yn yr awdurdod hwn wedi bod yn broblem leol am sbel nawr. Mewn ateb i bwyntiau Angela, efallai mai'r rheswm y cafodd yr awdurdod hwn adroddiadau da yn y gorffennol yw oherwydd ei fod yn taflu llwch i lygaid pobl ac nad oedd yn rhannu'r wybodaeth yn briodol gyda'r asiantaethau a oedd yn mynd i mewn i archwilio ei brosesau. Dyma gyfle i'r awdurdod i newid. Ar ôl dechrau braidd yn betrusgar, amddiffynnol ac anffodus, ymddengys yn awr ei fod wedi deffro i'w gyfrifoldebau, a chroesawaf hynny.

Fodd bynnag, mae dau beth sy'n peri pryder arbennig i mi. Un yw bod craffu priodol yn cael ei ganiatáu o fewn yr awdurdod rhwng aelodau. Mae camau wedi bod i benodi cadeiryddion annibynnol newydd ar y pwyllgorau craffu. Serch hynny, yr wyf yn poeni nad yw pob cynghorydd—ac yr wyf yn golygu pob cynghorydd—yn cael y

information with which they can properly scrutinise the decision making that goes in Pembrokeshire County Council. In acting for the Government, is the Deputy Minister—or indeed the Minister for Local Government and Communities, who is here in his seat—convinced that this authority has the proper procedures in place to allow whistleblowing to happen and to encourage whistleblowers to come forth with examples of bad practice? It seems to me that, for too long, Pembrokeshire County Council has had a defensive insular attitude to things going wrong within the authority and has not been prepared to share and learn from examples of best practice elsewhere. For too long, it has put people in position before the children and the communities it serves. That has to change, and the steps set out today by the Deputy Minister are a welcome first step in that process.

Gwenda Thomas: I thank Simon Thomas for that. I take on board his points. Of course, we will be considering the comments made in this debate as part of our future considerations. If there are any specific cases concerning the safeguarding of children that come to anyone's attention—whether we are Assembly Members, members of local authorities or whatever—it is our duty to bring those to the attention of people who can do something about it. I am sure that that is a message that we need to send out from here as well. There is no doubt in my mind that effective scrutiny is a way of safeguarding children. We now have the internal improvement board in Pembrokeshire, which has a cross-party ethos, and that is to be welcomed. Whistleblowing is very important. I am sure that, within its terms of reference, the new ministerial board will have this at its heart. Generally, the importance of safeguarding will not be missed by that board.

Paul Davies: Diolchaf i'r Dirprwy Weinidog am y datganiad. Diolchaf hefyd i'r Dirprwy Weinidog ac i'r Gweinidog addysg am gadw mewn cysylltiad â mi, fel un o'r Aelodau sy'n cynrychioli sir Benfro, ynglŷn â'r materion hyn. Pan gyhoeddodd CSSIW ac Estyn yr adroddiadau, yr oeddem i gyd yn bryderus oherwydd eu canfyddiadau. Mae'r

wybodaeth lawn er mwyn iddynt allu craffu'n iawn ar y broses gwneud penderfyniadau yng Nghyngor Sir Penfro. Wrth weithredu ar ran y Llywodraeth, a yw'r Dirprwy Weinidog—neu yn wir y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, sydd yma yn ei sedd—wedi'u hargyhoeddi bod gan yr awdurdod hwn weithdrefnau priodol ar waith i ganiatáu chwythu'r chwiban i ddigwydd ac i annog chwythwyr chwiban i ddod allan gydag enghreifftiau o arfer gwael? Mae'n ymddangos i mi fod Cyngor Sir Penfro, ers rhy hir, wedi meddu ar agwedd ynysig amddiffynnol i bethau yn mynd o'i le o fewn yr awdurdod ac ni fu'n barod i rannu a dysgu o enghreifftiau o arfer gorau mewn mannau eraill. Ers rhy hir, mae wedi rhoi pobl mewn lle cyn y plant a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu. Rhaid i hynny newid, ac mae'r camau a amlinellir heddiw gan y Dirprwy Weinidog yn gam cyntaf i'w groesawu yn y broses honno.

Gwenda Thomas: Diolch i Simon Thomas am hynny. Yr wyf yn derbyn ei bwyntiau. Wrth gwrs, byddwn yn ystyried y sylwadau a wnaed yn y ddadl hon fel rhan o'n hystyriaethau yn y dyfodol. Os oes unrhyw achosion penodol yn ymwneud â diogelu plant sy'n dod i sylw unrhyw un—pa un ai ydym yn Aelodau Cynulliad, aelodau o awdurdodau lleol neu beth bynnag—mae'n ddyletswydd arnom i ddod â hynny i sylw pobl sy'n gallu gwneud rhywbeth am y peth. Yr wyf yn siŵr bod hwnnw'n neges y mae angen i ni ei gyfleu oddi yma hefyd. Nid oes amheuaeth gen i bod craffu effeithiol yn ffordd o ddiogelu plant. Erbyn hyn mae gennym y bwrdd gwella mewnol yn sir Benfro, sydd ag ethos drawsbleidiol, ac mae hynny i'w groesawu. Mae chwythu'r chwiban yn bwysig iawn. Yr wyf yn sicr, o fewn ei gylch gorchwyl, t bydd hyn wrth galon y bwrdd gweinidogol. Yn gyffredinol, bydd pwysigrwydd diogelu yn flaenoriaeth i'r bwrdd.

Paul Davies: I thank the Deputy Minister for the statement. I also thank the Deputy Minister and the Minister for education for maintaining contact with me, as one of the Members representing Pembrokeshire, on these issues. When CSSIW and Estyn published the reports, we were all very concerned by their findings. These issues are

materion hyn yn peri pryder i bob cymuned yn sir Benfro, a rhaid cydnabod bod rhai o'r methiannau y cyfeirir atynt yn y ddau adroddiad wedi effeithio ar les disgyblion a phobl ifanc. Mae'n hanfodol yn awr bod strwythurau priodol yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau na fydd y sefyllfa hon yn digwydd eto. Mae'n hanfodol hefyd bod prosesau craffu cadarn yn cael eu rhoi ar waith a bod y wybodaeth briodol yn cael ei rhannu â chynghorwyr.

Fel y mae'r Dirprwy Weinidog wedi dweud, mae'n amlwg bod y cyngor, yn ystod yr wythnosau diwethaf, wedi dechrau cymryd camau i ymdrin â rhai o'r materion yn yr adroddiadau. Mae'r cynllun gweithredu sydd wedi'i lunio gan y cabinet wedi ei gymeradwyo gan y cyngor, ac ymddengys i mi ei fod yn gynllun cynhwysfawr iawn gydag amserlen benodol. A yw'r Dirprwy Weinidog yn cytuno bod hwn yn gynllun gweithredu cynhwysfawr a fydd yn gwella materion diogelu plant yn sir Benfro? Mae'n hollbwysig bod Cyngor Sir Penfro a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd ar y materion hyn.

Yn ogystal, a yw'r Dirprwy Weinidog yn cytuno—cyfeiriodd William Powell at hyn yn ei sylwadau ef—ei bod yn anffodus bod rhai o'r materion hyn wedi cael eu trafod yn y cyfryngau yn ystod yr wythnosau diwethaf yn hytrach na chael eu trafod rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Penfro mewn modd adeiladol? Yn y pen draw, rhaid i ddiogelwch a lles plant fod yn brif flaenoriaeth i ni, i Gyngor Sir Penfro ac i Lywodraeth Cymru. Yr ydym wedi clywed eisoes yn y Siambr am gydweithredu; yn sgîl y datganiad hwn, yr wyf yn gobeithio y bydd y Llywodraeth a Chyngor Sir Penfro yn parhau i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod diogelu ein plant yn brif flaenoriaeth yn awr ac yn y dyfodol.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 4.11 p.m.
The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 4.11 p.m.*

Gwenda Thomas: Diolch i Paul Davies am yr hyn a ddywedodd. Yr wyf yn cytuno â chi, Paul, ei bod yn hanfodol bod camau cadarn yn cael eu cymryd, yn fewnol ac yn allanol. O ran eich cwestiwn ar y cynllun gweithredu, credaf ei fod yn mynd dipyn o'r ffordd, ond

a matter of grave concern to all communities across Pembrokeshire and we must recognise that some of the failures referred to in the report affect the welfare of pupils and young people. It is now vital that appropriate structures are put in place to ensure that this does not happen again. It is also vital that robust scrutiny processes are put in place and that the relevant information is shared with councillors.

As the Deputy Minister has said, it is clear that the council, over the past few weeks, has taken steps to start to deal with some issues arising from the reports. The action plan put together by the cabinet has been approved by the council, and I believe that it is a comprehensive programme with a concrete timetable. Does the Deputy Minister agree that this is a comprehensive action plan that will improve the situation with regard to child safety in Pembrokeshire? It is essential that Pembrokeshire County Council and the Welsh Government work together on these issues.

In addition, does the Deputy Minister agree—William Powell referred to this in his comments—that it is unfortunate that some of these issues have been discussed by the media over the last few weeks rather than in a constructive way between the Welsh Government and Pembrokeshire County Council? Ultimately, the safety and welfare of children must be a priority for us, for Pembrokeshire County Council and for the Welsh Government. We have already heard in the Chamber about co-operation; as a result of this statement, I hope that the Government and Pembrokeshire County Council will continue to work together to ensure that ensuring the safety of our children remains a priority both now and in the future.

Gwenda Thomas: I thank Paul Davies for what he said. I agree with you, Paul, that it is essential that robust action is taken, internally and externally. On your question on the action plan, I think that it is a step in the right direction, but it does not go far enough. The

nid yn ddigon pell. Yr her i'r bwrdd newydd fydd rhoi sialens a chymorth allanol er mwyn i'r awdurdod symud ymlaen. Yr wyf yn cytuno bod perthynas adeiladol yn werthfawr, a chredaf ein bod wedi troi cornel yn hynny o beth. Bydd y ffaith ein bod wedi cael consensws yn y Siambwr y prynhawn yma yn anfon neges gref i sir Benfro ac i Gymru. Credaf ein bod i gyd yn cytuno mai amddiffyn a gofalu am blant sy'n bwysig. Ni fydd maddeuant os nad ydym yn gweithredu yn awr yn y modd y dylem. Bydd gwaith y bwrdd hwn yn ein harwain i'r man y dylem fynd. Dywedaf eto y bydd annibyniaeth cadeiryddiaeth y bwrdd hwnnw yn hollbwysig. Bydd barn gyfreithiol ar gael i'r bwrdd ei hunan ac i ni fel Gweinidogion, a bydd y bwrdd yn atebol i ni fel Gweinidogion ac, felly, i'r Cynulliad. Bydd hyn o gymorth i blant sir Benfro. I mi, dyna sy'n bwysig.

task for the new board will be to offer challenge and external assistance in order for the authority to move on. I agree that a constructive relationship is valuable, and I believe that we have turned a corner on that. The fact that we have achieved consensus in the Chamber this afternoon will send a strong message to Pembrokeshire and to Wales. I think that we all agree that it is child protection and safeguarding that are important. We will not be forgiven if we do not act now in the way that we should. The work of this board will lead us to where we should be. I say again that the independent chairmanship of that board will be crucial. Legal advice will be available to the board itself and to us as Ministers, and the board will answer to us as Ministers and, therefore, to the Assembly. This will be of assistance to the children of Pembrokeshire. To me, that is what is important.

The Deputy Presiding Officer: Thank you, Deputy Minister. That concludes this statement.

Y Dirprwy Lywydd: Diolch, Ddirprwy Weinidog. Dyna ddiwedd y datganiad hwn.

Gwasanaethau Mamolaeth Maternity Services

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 2 in the name of Jocelyn Davies, amendments 3, 4, 5, 6 and 7 in the name of William Graham, and amendments 8 and 9 in the name of Peter Black.

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw Jocelyn Davies, gwelliannau 3, 4, 5, 6 a 7 yn enw William Graham, a gwelliannau 8 a 9 yn enw Peter Black.

Cynnig NDM4796 Jane Hutt

Motion NDM4796 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn ystyried dull Llywodraeth Cymru o wella gwasanaethau mamolaeth yng Nghymru; ac

1. Considers the Welsh Government's approach to improving maternity services in Wales; and

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn credu:

2. Notes that the Welsh Government believes that:

a) y dylai gwasanaethau mamolaeth ledled Cymru gael eu trefnu i ddiwallu anghenion menywod a'u babanod;

a) maternity services across Wales, should be organised to meet the needs of women and their babies;

b) y dylai popeth posibl gael ei wneud i ddiogelu a gwella iechyd menywod a'u

b) everything possible should be done to protect and improve the health and well

babanod; ac

c) y dylai beichiogrwydd a geni plant fod yn brofiad diogel sy'n gwella ac yn cyfoethogi bywyd.

The Minister for Health and Social Services (Lesley Griffiths): I move the motion.

I would like to invite the Assembly to debate and consider the Welsh Government's approach to improving the quality of care for women and their babies during pregnancy and childbirth. In 2009, the Wales Audit Office reported, from a survey of women's views on the maternity care they had received, that over 85 per cent of women said that their care was good, very good or excellent. Good progress has been made in meeting the maternity service standards set out in the national service framework for children, young people and maternity services published in 2005. So, our maternity service is already one we can be proud of, but there are more improvements to be made.

Yesterday, I launched our new approach, entitled, 'A Strategic Vision for Maternity Services in Wales' at the midwife-led birth centre in the University Hospital of Wales in Cardiff. My vision is of a service that promotes pregnancy and childbirth as an event of social and emotional significance in which women and their families are treated with dignity and respect. For every mother, wherever they live, and whatever their circumstances, pregnancy and childbirth will be a safe and positive experience so that she, her partner and family can begin parenting feeling confident, capable and well-supported in giving their child a secure start in life.

4.15 p.m.

The Government's motion for the debate reflects the three priorities on which we want NHS Wales to focus its efforts to make this vision a reality. First, I believe that maternity care across Wales should be organised to meet the needs of women and their babies.

being of mothers and their babies; and

c) pregnancy and childbirth should be a safe, fulfilling life enhancing experience.

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Lesley Griffiths): Cynigïaf y cynnig.

Hoffwn wahodd y Cynulliad i drafod ac ystyried dull Llywodraeth Cymru i wella ansawdd y gofal a roddir i fenywod a'u babanod yn ystod beichiogrwydd a genedigaeth. Yn 2009, dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru, yn dilyn arolwg o safbwyntiau merched ar y gofal mamolaeth a gawsant, bod dros 85 y cant o fenywod wedi dweud bod eu gofal yn dda, yn dda iawn neu'n ardderchog. Mae cynnydd da wedi'i wneud o ran cwrdd â'r safonau gwasanaeth mamolaeth a nodwyd yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i wasanaethau plant, pobl ifanc a mamolaeth a gyhoeddwyd yn 2005. Felly, mae ein gwasanaeth mamolaeth eisoes yn un y gallwn ymfalchïo ynddo, ond mae mwy o welliannau eto i'w gwneud.

Ddoe, lansiais ein dull newydd o'r enw, 'Gweledigaeth Strategol ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yng Nghymru' yn y ganolfan enedigaeth dan arweiniad bydwagedd yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd. Fy ngweledigaeth yw gwasanaeth sy'n hyrwyddo beichiogrwydd a genedigaeth fel digwyddiad o bwys cymdeithasol ac emosiynol y mae merched a'u teuluoedd yn cael eu trin gydag urddas a pharch. I bob mam, lle bynnag maent yn byw, a beth bynnag yw eu hamgylchiadau, bydd beichiogrwydd a genedigaeth yn brofiad diogel a chadarnhaol fel ei bod hi, ei phartner a'r teulu yn dechrau rianta yn teimlo'n hyderus, yn abl ac wedi'u cefnogi'n dda i roi cychwyn cadarn i'w plentyn mewn bywyd.

Mae cynnig y Llywodraeth ar gyfer y ddadl yn adlewyrchu'r tair blaenoriaeth yr ydym am i GIG Cymru ganolbwyntio ei hymdrechion arnynt i wireddu'r weledigaeth hon. Yn gyntaf, yr wyf yn credu y dylai gofal mamolaeth ledled Cymru gael ei drefnu i

We know that women want to be cared for by someone they get to know well, whom they can trust and call on for advice and information early in pregnancy. I want the midwife, as the expert in normal pregnancy and birth, to be the first point of contact for the majority of women who access maternity services. This will ensure that women will receive relevant information, advice and support right from the start from someone who they will get to know well. Should a woman have complex obstetric needs, the midwife would refer her to an obstetrician who would become her lead professional.

Of course, GPs also have a vital role to play in supporting women and their families. They may have known them for many years and they will have a detailed understanding of their health and social issues. Some women may choose to have maternity care from their GP.

